



Home Office

YMATEBION MWY EFFEITHIOL I YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

RHAGAIR GWEINIDOGOL



Mae'r troseddau ac anrhefn dydd i ddydd a ddisgrifir fel 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' – o fandaliaeth a graffiti i werthu cyffuriau ac aflonyddu – yn cael effaith enfawr ar ansawdd bywyd miliynau o bobl yn y wlad hon. Mae'n gyrydol, yn difetha cymunedau a chymdogaethau. Ymhellach, fel y gwelwyd mewn achosion trasig yn ddiweddar, mae'n aml wedi ei dargedu at y rhai hynny yn ein cymdeithas sydd leiaf abl i ddiogelu eu hunain.

Rwy'n gwybod, ledled y wlad, bod nifer o heddluoedd, cynghorau, landlordiaid cymdeithasol ac eraill yn gweithio'n galed i daclo'r broblem. Ond er gwaethaf dros ddegawd o dargedau, mentrau llywodraethol a deddfwriaeth ddiidwedd, mae'r heddlu yn derbyn dros 3.5 miliwn o adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol y flwyddyn, ac fe adroddir ar lawer mwy o ddigwyddiadau i gynghorau neu landlordiaid cymdeithasol, neu beidio eu hadrodd o gwbl. Canfu

adroddiad yn ystod yr hydref y llynedd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi bod heddluoedd yn dal i dueddu i flaenoriaethu troseddau 'gwirioneddol' dros ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid yw hyn yn wahaniaeth sy'n gwneud synnwyr i'r dioddefwyr.

Rwy'n credu bod gan bawb hawl i deimlo'n ddiogel yn eu cartref ac yn eu cymdogaeth. Dyma pan fod lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth i'r llywodraeth, ac y dylai fod yn flaenoriaeth i bob heddlu. Ond nid yw'n broblem y gall yr heddlu daclo ar ei ben ei hun. Dylai ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd fod yn flaenoriaeth i asiantaethau eraill gyda chyfrifoldeb am ddiogelwch cymunedol, yn cynnwys cynghorau a landlordiaid cymdeithasol, hyd yn oed wrth gwtogi ar wariant.


Byddwn angen ymagwedd newydd i broblem sy'n sylfaenol leol, ac a fydd yn wahanol ym mhob ardal. Rhaid i'r atebion ddod nid o'r canol, ond gan weithwyr yn y maes a'r cymunedau eu hunain – y bobl sy'n adnabod y dioddefwyr ac yn adnabod y troseddwyr.

Felly rwyf am weld trawsnewidiad yn y modd y delir ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rwyf am ryddhau gweithwyr i wneud beth maent yn gwybod bydd yn gweithio yn eu hardal, a sicrhau eu bod yn atebol i'r cymunedau maent yn gwasanaethu yn hytrach na biwrocratiaid yn San Steffan. Rwyf eisoes wedi cael gwared ar y mentrau a thargedau perfformiad a osodwyd o'r canol. Nawr rwyf am rymuso pobl i lunio'r modd mae'r heddlu ac eraill yn delio â'r materion sydd bwysicaf iddynt, yn cynnwys trwy gyflyno Comisiynwyr Heddlu a Throseddau etholedig, mapiau troseddau fesul stryd, a chyfarfodydd bîd cymdogaeth reolaidd.

Mae sicrhau bod gan yr heddlu a gweithwyr eraill yr offer maent angen i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhan allweddol o'r ymagwedd newydd honno. Maent angen offer sy'n gweithio – y gellir eu gorfodi; sy'n darparu cyfiawnder cyflymach, mwy gweladwy i ddioddefwyr a chymunedau; sy'n adsefydlu troseddwyr ble fo'n bosibl; ac sy'n gweithredu fel atalydd gwirioneddol. Mae dioddefwyr a gweithwyr wedi dweud wrthym nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd, felly ym mis Gorffennaf y llynedd fe gyhoeddais adolygiad o'r nifer o offer a grymoedd a gyflwynwyd ers 1998.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu casgliadau'r arolwg hwnnw, ac yn cyflwyno rhywfaint o gynigion i symleiddio a gwella'r arweinlyfr mewn modd radical. Ond dim ond cyn belled fydd gwella'r offer yn mynd â ni, ac mae angen i ni wneud mwy i annog y math o newid diwylliannol sydd ei angen. Felly rydym hefyd yn gweithio gyda'r heddlu ac eraill i gefnogi wyth ardal leol i brofi dulliau newydd o ddelio â galwadau gan y cyhoedd sy'n nodi ac amddiffyn dioddefwyr mynych a bregus. Ac mae Helen Newlove yn amlygu sut y mae rhai cymunedau yn brwydro yn ôl, gan weithio'n rhagweithiol gyda'r heddlu ac eraill i wneud eu cymdogaethau'n fwy diogel.

Mae trawsnewid yr ymagwedd i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn her enfawr, ond nid un yr wyf yn bychanu. Nid wyf am ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol trwy dybio mai o'r canol y daw'r atebion i gyd. Ac nid wyf ychwaith am esgeuluso'r cynnydd a wnaed, na'r gwaith caled ac arloesi gan nifer o bobl ledled y wlad sy'n mynd gam ymhellach i amddiffyn y cyhoedd. Bydd eich barn – p'un a ydych wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol eich hun, yn adnabod rhywun sydd wedi, neu â rôl broffesiynol mewn delio â'r mater – yn allweddol i'n helpu i ddatblygu offer newydd sy'n gweithio, ac yn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl.



YSGRIFENNYDD CARTREF

Chwefror 2011

CYNNWYS

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' yn disgrifio ystod o niwsans, anrhefn a throseddau pob dydd, o graffiti a chymdogion swnllyd i aflonyddu a gwerthu cyffuriau ar y stryd. Mae weithiau'n cael ei ddiystyru fel mater bychan, ond mae gan ymddygiad gwrthgymdeithasol effaith enfawr ar ansawdd bywyd dioddefwyr, a dyma brif bryder y cyhoedd pan ddaw i faterion troseddau lleol. Fe adroddwyd dros 3.5 miliwn o ddigwyddiadau i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr y llynedd, ac fe wyddom i lawer mwy gael eu hadrodd i asiantaethau lleol eraill megis cynghorau a chymdeithasau tai, neu beidio eu hadrodd o gwbl.

Mae lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth i'r llywodraeth, ac rydym yn disgwyl iddo fod yn flaenoriaeth i'r heddlu ac asiantaethau eraill hefyd, yn arbennig ble mae'n droseddol neu wedi ei dargedu at ddioddefwyr bregus. Heb ei atal, gellir cysylltu ymddygiad gwrthgymdeithasol ag anrhefn gynyddol, troseddau lefel isel ac ofn troseddau mewn cymdogaeth - yr effaith a elwir yn 'ffenestri wedi torri'.

Mae'r heddlu a'u partneriaid lleol, megis cynghorau lleol, angen ystod o offer i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ble fo ymddygiad yn droseddol, dylid delio ag o felly. Ond gall mesurau anffurfiol roi terfyn ar bethau cyn iddynt fynd yn rhy bell. A gall gorchmynion sifil ataliol rwystro ymgyrchoedd hirhoedlog o frwychu neu aflonyddu sy'n achosi niwed gwirioneddol i ddioddefwyr, ble na fyddai erlyn un drosedd unigol yn cael effaith.

Mae'r pecyn cymorth mae ymarferwyr yn defnyddio ar hyn o bryd yn helaeth, ac yn mynd o lythrau rhybudd i orchmynion llys megis y Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO). Fe ganfu ein harolwg:

- bod yna lawer gormod o offer – gydag ymarferwyr yn dueddol o gadw at y rhai maent fwyaf cyfarwydd â nhw;
- bod rhai o'r offer ffurfiol (yn arbennig yr ASBO) yn fiwrocraataidd, araf a drud, sy'n gwneud i bobl osgoi eu defnyddio;

- bod y nifer gynyddol o bobl sy'n torri eu ASBO yn awgrymu nad yw'r oblygiadau posibl yn atal lleiafrif penderfynol rhag parhau gyda'u hymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol; ac
- mai anaml y defnyddiwyd offer a gafodd eu cynllunio i helpu'r sawl sy'n cyflawni troseddau i ddelio ag achosion sylfaenol eu hymddygiad gwrthgymdeithasol.

O ganlyniad, rydym yn cynnig symleiddio radical o'r pecyn cymorth. Rydym eisiau symud i ffwrdd o gael offeryn ar gyfer pob problem wahanol i sicrhau bod gan yr heddlu a phartneriaid offer cyflymach, mwy hyblyg. Bydd y rhain, a sancsiynau mwy effeithiol, yn helpu gweithwyr proffesiynol a, ble fo angen, bydd y llysoedd yn stopio ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gynt, ac yn diogelu dioddefwyr a chymunedau'n well. Yn benodol, rydym yn cynnig:

- diddymu'r ASBO a gorchmynion llys newydd ar gyfer unigolion gwrthgymdeithasol, a'u hamnewid gyda dau offeryn newydd sy'n dod â chyfyngiadau ar ymddygiad yn y dyfodol a chefnogaeth i ddelio â phroblemau sylfaenol ynghyd – **Gorchymyn Ymddygiad Troseddol** y gellir ei atodi i euogfarn droseddol, a **Gwaharddeb Atal Trosedd** all atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fuan cyn iddo ddwysau;
- sicrhau bod yna ysgogiadau grymus ar gyflawnwyr troseddau i'w hatal rhag ymddwyn yn wrthgymdeithasol - er enghraifft, trwy wneud torri'r gorchmynion newydd yn sail i droi allan o dai cymdeithasol;
- uno nifer o'r offer presennol i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol penodol i le, o sbwriel cyson neu gymdogion swnllyd, i yfed ar y stryd a manau gwerthu cyffuriau, i **Orchymyn Amddiffyn Cymunedol**;

- uno grymoedd gwasgaru presennol yr heddlu i un grym i'r heddlu i **gyfeirio pobl oddi wrth** ardal ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- gwneud yr offer **anffurfiol a thu allan i'r llysoedd** i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy adferol; a
- cyflwyno **Ysgogydd Cymunedol** sy'n rhoi'r hawl i ddioddefwyr a chymunedau i ofyn i asiantaethau ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson.

Rydym wedi siarad â nifer o ymarferwyr wrth ddatblygu'r cynigion hyn, ond yn cydnabod bod yna swm enfawr o arbenigedd ar lefel leol, a nifer o syniadau da ar sut y gellid cael yr offer a grymoedd i weithio'n well. Rydym yn awyddus i ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i ddefnyddio'r arbenigedd hwnnw, er mwyn i ni allu sicrhau bod y newidiadau hyn yn ei gwneud yn haws i'r heddlu ac eraill ddiogelu dioddefwyr a chymunedau.

Mae symleiddio a gwella'r pecyn cymorth yn bwysig, ond dim ond rhan o'r darlun yw hyn. Mae'n cynigion yn rhan o becyn ehangach o ddiwygiadau sy'n cynnwys: gwneud heddluoedd yn fwy atebol i bobl leol trwy gyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a gwybodaeth o droseddau ar lefel stryd; nodi a lledaenu syniadau da, fel gyda'r profion o'r ymagwedd newydd i ddelio ag adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gyhoeddwyd yn gynharach ym mis Ionawr; gwella cofnodi troseddau casineb; a grymuso pobl i gymryd mwy o ran mewn materion diogelwch cymunedol.

2. CYFLWYNIAD

Cafodd y term ‘ymddygiad gwrthgymdeithasol’ ei ffurfioli ar ddiwedd y 1990au i ddisgrifio ystod eang o’r niwsans¹, anrhefn a throedd sy’n effeithio ar fywydau pob dydd pobl. Fel enghreifftiau o beth ellid ei ystyried i fod yn ‘wrthgymdeithasol’, fe holodd Arolwg Troseddau Prydain ymatebwyr ynglŷn â:

- chymdogion swnllyd neu bartïon swnllyd;
- pobl yn eu harddegau yn crwydro’r strydoedd;
- sbwriel ar lawr;
- fandaliaeth, graffiti a difrod bwriadol arall i eiddo neu gerbydau;
- pobl yn defnyddio neu werthu cyffuriau;
- pobl wedi meddwi neu’n derfysglyd mewn mannau cyhoeddus; a
- ceir wedi eu gadael neu eu llosgi.

Defnyddir niwsans yn aml yng nghyd-destun cysylltiad ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac nid parthed niwsans statudol fel y’i diffiniwyd dan y Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990.

Amcan y llywodraeth ar y pryd oedd ffocysu’r heddlu ac asiantaethau eraill ar y materion oedd yn bwysig iawn i bobl leol, ond nad oeddynt wedi eu blaenoriaethu neu ddelio â nhw yn effeithiol ar bob adeg.

Roedd Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, oedd yn diffinio ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gyfraith fel ‘ymddwyn mewn modd a achosodd neu sy’n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod i un neu fwy o bobl nad ydynt o’r un cartref’, yn gychwyn ar ymagwedd newydd. Roedd y diffiniad cyfreithiol yn llwyfan ar gyfer grymoedd sifil newydd i ddelio â’r problemau hyn, gan roi’r gallu i’r llysoedd osod cyfyngiadau ar weithgareddau a symudiadau unigolion yn y dyfodol er mwyn atal rhagor o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd hyn yn cynnig dewis amgen i erlyniad mewn sefyllfaoedd ble roedd yn anodd profi y cyflawnwyd trosedd – er enghraifft, ble roedd preswylwyr ofn rhoi tystiolaeth yn erbyn eu cymdogion.

Roedd y grymoedd sifil hefyd yn rhoi modd i’r heddlu ac asiantaethau eraill ddelio ag effaith gronol ymddygiad parhaus unigolyn, tra bod sancsiynau traddodiadol wedi tueddu i ganolbwyntio ar gosbi trosedd benodol. Mewn achosion o aflonyddu cyson, ble byddai troseddau unigol yn edrych fel rhai gweddol fychan ond y mae’r ymddygiad yn cael effaith enfawr ar ansawdd bywyd y dioddefydd, fe roddodd hyn allu newydd defnyddiol i weithwyr y rheng flaen.

Yna fe arweiniwyd yr ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol o’r canol, gyda chyllid atodol, targedau lefel perfformiad ar gyfer ardaloedd lleol, a mentrau lefel uchel megis yr ymgyrch ‘Respect’ oll yn rhan o ymdrech y llywodraeth i ragnodi beth ddylai ardaloedd lleol wneud a sut dylent ei wneud. A gydag amser, fe ychwanegwyd nifer cynyddol o rymoedd newydd i’r pecyn cymorth wrth i faterion newydd godi, i ddelio â phopeth o fannau cyflenwi crac i wrychoedd leylandii, ac yn cynnwys cymorth dan orchymyn y llysoedd i helpu troseddwr ddelio ag achosion sylfaenol eu hymddygiad.

Yn amlwg mae nifer o enghreifftiau ble mae’r offer hyn wedi helpu ymarferwyr i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau, ac mae heddluoedd, cynghorau, landlordiaid cymdeithasol ac eraill yn rhoi mwy o ymdrech i mewn i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ond tair blynedd ar ddeg wedi cyflwyno’r ASBO, mae dros 3.5 miliwn o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dal i gael eu hadrodd i’r heddlu pob blwyddyn, ac fe wyddom yr adroddir llawer mwy i asiantaethau eraill megis cynghorau neu landlordiaid cymdeithasol. Yn wir, mae Arolwg Trosedd Prydain yn awgrymu na adroddir ar oddeutu tri chwarter o achosion o gwbl.

Ym Medi’r llynedd, fe gyhoeddodd Syr Denis O’Connor, Prif Arolygydd Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, ‘Stop the Rot’ yn disgrifio ei adolygiad o’r modd y mae 43 heddlu Cymru a Lloegr yn ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fe adroddodd y cafwyd gwelliannau arwyddocaol, ac y gallai plismona

cymdogaeth yn benodol wneud gwahaniaeth mawr, ond er bod rhai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gweithio'n effeithiol, bod safonau gwasanaeth yn amrywiol, a gall y pwyslais ar ddatrysiadau hirdymor atal gweithredu amserol rhag digwydd ar adegau.

Roedd ei gasgliadau hefyd yn amlygu cyfyngiadau ymagwedd o'r canol. Er bod pob heddlu yn cofrestru ymddygiad gwrthgymdeithasol fel blaenoriaeth strategol, mewn gwirionedd mae nifer o swyddogion yn dal i flaenoriaethu troseddau 'gwirioneddol' (h.y. yr hyn sy'n cael ei gofnodi). Roedd llai na hanner heddluoedd yn gallu nodi materion ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol a manau trafferthus, a dyrannu adnoddau yn unol â hynny. Ac roedd hyd yn oed llai ohonynt â systemau yn barod i nodi dioddefwyr mynych a bregus wrth iddynt alw am gymorth. O bosibl o ganlyniad, dim ond hanner y 5,699 o ddiodefwyr a holwyd gan MORI ar gyfer yr adroddiad a deimlai fod yr heddlu â'u partneriaid yn delio'n effeithiol ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Beth mae'r ymagwedd o'r brig i lawr yn anwybyddu yw bod hyn yn broblem leol yn y bôn. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn newid o le i le, ac felly hefyd flaenoriaethau'r bobl sy'n byw yno. Mewn un gymdogaeth, bydd pobl yn poeni am feiciau modur oddi ar y ffordd, mewn un arall yn poeni am fandaliaeth a graffiti, a gwerthu a chymryd cyffuriau ar y stryd mewn man arall. Nid oes un datrysiad un maint i bawb. Yn hytrach, rhaid i'r atebion ddod gan y bobl sy'n ddigon agos i ddeall y materion ym mhob ardal, sy'n adnabod y dioddefwyr, ac yn adnabod y troseddwyr. Hynny yw, gan y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes a'r cymunedau eu hunain.

Rydym yn ystyried bod 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' – yn cwmpasu ystod o droseddau, anrhefn a niwsans – yn parhau i fod yn gysyniad defnyddiol sy'n canolbwyntio'r heddlu ac asiantaethau lleol eraill ar y materion sydd bwysicaf i fywyd dydd i ddydd pobl. Ond mae'r llywodraeth hwn yn arwain trawsnewidiad yn y modd mae asiantaethau

yn delio â'r mater, gan gael gwared ar fentrau canolog, targedau a dictadau, a grymuso'r gweithwyr a chymunedau i ddod ynghyd i drechu'r broblem hon.

Rydym yn symud atebolrwydd o lefel genedlaethol i lefel leol, fel y gall y cyhoedd, yn hytrach na'r swyddogion yn San Steffan, osod blaenoriaethau i'r heddlu ac asiantaethau lleol eraill. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn chwarae rôl allweddol o ran dal Prif Gwnstabiliaid yn atebol ar ran y cyhoedd fel nad ydym yn mynd yn ôl i sefyllfa ble mae pryderon lleol am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llithro i lawr y rhestr o flaenoriaethau. Rydym hefyd yn rhoi gwybodaeth i gymunedau am y materion yn eu hardal, trwy wybodaeth ar lefel strydoedd ar droseddau, a chyfarfodydd bîth cymdogaeth rheolaidd, er mwyn iddynt allu barnu iddynt eu hunain pa mor dda mae asiantaethau lleol yn taclo troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae Helen Newlove, Hyrwyddwr y llywodraeth dros Gymunedau Gweithredol, Mwy Diogel, yn helpu'r cyhoedd i gymryd mwy o ran yn y frwydr yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dros y misoedd nesaf, bydd yn gweithio gydag ardaloedd lleol i ddatblygu ymgyrchu cymunedol fel modd o daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol a bydd yn cynhyrchu adroddiad yn manylu beth arall all y llywodraeth ac asiantaethau lleol wneud i helpu cymunedau i adfer eu strydoedd.

Yn sylfaen i hyn oll, rydym yn ymroddedig i sicrhau fod gan y gweithwyr yr offer maent eu hangen i wneud y gwaith – offer sy'n gweithio, ac a welir i fod yn gweithio gan y rhai y mae eu bywydau yn cael eu difetha gan ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r ymgyngoriad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ein harolwg o'r arweinlyfr presennol, a'n cynigion i'w symleiddio a'i wella.

Mae'r pecyn cymorth ymddygiad gwrthgymdeithasol presennol yn cynnwys nifer o offer a grymoedd y gall yr heddlu

3. ADOLYGU'R PECYN CYMORTH

a phartneriaid lleol ddefnyddio i ddelio ag amrywiaeth o ymddygiadau a phroblemau. Mae'r pecyn cymorth yn amrywio o weithredoedd anffurfiol megis llythyrau rhybuddio a Chytundebau Ymddygiad Derbyniol sy'n gorfodi'r unigolyn i wynebu effaith eu hymddygiad ac yn ceisio delio'n gynnar â'r broblem, trwy'n gwarediadau tu allan i'r llys megis Hysbysiadau Cosb, cyn mynd ymlaen at orchmynion llys ffurfiol all osod cyfyngiadau ar ymddygiad a symudiadau troseddwr.

Er bod yna achosion amlwg ble maent wedi eu defnyddio'n llwyddiannus, mae dioddefwyr a throseddwr wedi dweud wrthym fod nifer o'r offer yn fiwrocraidd, araf a drud. Ac mae yno hefyd gwestiynau ehangach ynglŷn â'u heffeithiolrwydd o ystyried, er enghraifft, y nifer cynyddol o droseddwr sy'n torri eu ASBO. Felly ym mis Gorffennaf y llynedd, fe gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref arolwg, gyda'r nod o symleiddio a gwella'r pecyn cymorth, gan sicrhau ei fod yn cynnig gwell amddiffyniad i ddioddefwyr a chymunedau a grym ataliol mwy effeithiol i'r sawl sy'n troseddu.

Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi dadansoddi'r defnydd o arfau penodol, a hefyd y modd y mae gwahanol ymarferwyr yn defnyddio'r pecyn cymorth cyfan. Rydym wedi galw ar ystod o ffynonellau, yn cynnwys ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ASBOs, dychweliadau data gwirfoddol gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ac adroddiadau blaenorol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ond dim ond rhan o'r stori sydd i'w gael o ddata, felly rydym hefyd wedi sgwrsio ag ystod o ymarferwyr i ddatblygu darlun o sut mae'r arfau'n gweithio mewn gwirionedd.

Mae'n dadansoddiad o'r offer eu hunain yn awgrymu:

- Bod y defnydd o ASBO wedi gostwng o fwy na hanner ers 2005, pan stopiodd y Swyddfa Gartref annog ardaloedd lleol

i'w defnyddio. Ac mae ASBOs bellach yn amlach wedi eu cynnwys gydag euogfarn droseddol yn hytrach na'u defnyddio cyn cyflawni trosedd;

- Ar yr un pryd, mae'r gyfradd torri ASBOs yn codi, o dan 40% yn 2003 i 56% erbyn diwedd 2009 (gyda 41% yn cael eu torri fwy nag unwaith). Mae hyn er gwaethaf y ffaith i dros hanner troseddwr y profwyd i fod wedi torri eu gorchymyn yn derbyn dedfryd warchodol ar unwaith. Mae yna hefyd amrywiaeth enfawr mewn cyfraddau torri rhwng gwahanol ardaloedd;
- Bod defnydd o rai o'r offer a grymoedd eraill, o bosibl fel dewis amgen i'r ASBO, wedi cynyddu'n sylweddol ers 2005. Mae hyn yn cynnwys mesurau anffurfiol megis Cytundebau Ymddygiad Derbyniol, yn ogystal â rhai mwy ffurfiol megis Hysbysiadau yn Ceisio Meddiant a Gwaharddebau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBIs) (y ddau yn gysylltiedig i dai cymdeithasol);
- O'r 171,000 o Hysbysiadau Cosb am Anrhefn a gyhoeddwyd gan yr heddlu yn 2009, roedd dros hanner am droseddau yn gysylltiedig i ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis bod yn feddw ac afreolus, achosi aflonyddiad, dychryn neu drallod, a difrod troseddol. Talwyd 53% o'r dirwyon o fewn y cyfnod amser a ddynodwyd;
- Bod y nifer sy'n gwneud defnydd o'r cymorth a gynlluniwyd i helpu pobl i ddelio ag achosion eu hymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn isel iawn. Er enghraifft, dim ond 8% o'r ASBOs a roddwyd i bobl ifanc ers 2004 oedd â gorchymyn cefnogol ynghlwm.

Gan edrych ar sut mae asiantaethau rheng flaen yn defnyddio'r pecyn cymorth yn gyffredinol, fe ymddengys:

- Fod gweithwyr proffesiynol sy'n delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dueddol o ddefnyddio ymagwedd ddwysau i'r pecyn cymorth, gan geisio delio â phroblem gydag offer anffurfiol yn gyntaf, megis llythyr rhybudd neu Gytundeb Ymddygiad Derbyniol, ac yna'n symud ymlaen i fesurau mwy ffurfiol. Teimlir yn gyffredinol bod ASBOs yn ddewis pan fetho popeth arall, i'w ddefnyddio wedi disbyddu pob dewis arall;
- Ymddengys bod hyn yn gweithio i rai troseddwr, ac fe ganfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol bod 65% wedi rhoi'r gorau i ymddwyn yn wrthgymdeithasol wedi ymyrraeth gyntaf. Ond mae yna leiafrif cyson y mae eu hymddygiad yn fwy ymgloeddedig a chysylltiedig i broblemau sylfaenol, ble'r ymddengys nad yw'r pecyn cymorth yn cael fawr ddim effaith. Mae'r ymagwedd gynyddol yn cyflwyno'r risg o ymestyn hyd yr amser mae'n rhaid i ddiodefwyr neu gymuned ddiodeff eu hymddygiad;
- Mae ymarferwyr yn ystyried biwrocratiaeth a chost i fod y rhwystrau mwyaf i ddefnydd effeithiol o'r pecyn cymorth. Mae offer ffurfiol – yn arbennig yr ASBO wedi i ddyfarniad llys apêl benderfynu ei fod angen prawf troseddol, yn hytrach na sifil – yn ddrud ac araf o gymharu â'r rhai anffurfiol.
- Mae diwylliant asiantaethau rheng flaen hefyd yn dylanwadu ar y defnydd o'r arweinyfr. Er enghraifft, mae'r nifer aruthrol o offer yn golygu bod ymarferwyr yn dueddol o gadw at y rhai maent wedi eu defnyddio o'r blaen. Ac mae rhai ymarferwyr, yn arbennig y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc a'u rheini, yn gyndyn i ddefnyddio cefnogaeth ffurfiol megis Gorchmynion Rhianta neu Orchmynion Cymorth Unigol, gan ddewis ymgysylltu ar sail wirfoddol.

Felly rydym wedi dod i'r casgliad, wrth ddatblygu cynigion i symleiddio a gwella'r pecyn cymorth, mai'r blaenoriaethau yw:

- I leihau maint y pecyn cymorth fel ein bod, yn hytrach na cheisio rhagnodi ymateb i bob mater, yn rhoi offer mwy hyblyg i weithwyr proffesiynol (e.e. sy'n gallu cyfuno cyfyngiadau gyda chymorth) y gallant eu defnyddio i gyrraedd gwraidd ystod o broblemau cymdogaeth;
- I fyrhau'r broses ac i leihau'r gost sy'n gysylltiedig â'r offer mwy ffurfiol, er mwyn i asiantaethau allu gweithredu'n fuan i ddiogelu diodefwyr a chymunedau rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol;
- I symud oddi wrth ymagwedd sydd wedi gwneud pobl yn droseddwr heb fod angen, yn arbennig pobl ifanc – rydym eisiau gwneud offer anffurfiol yn fwy effeithiol, fel bod llai o droseddwr yn symud ymlaen at ymddygiad gwrthgymdeithasol mwy difrifol. Ac rydym am ei gwneud yn haws i ymarferwyr gefnogi pobl i ddelio ag achosion sylfaenol eu hymddygiad, yn unol ag ymgyrch ehangach y llywodraeth i drawsnewid bywydau teuluoedd gyda phroblemau lluosog, yn cynnwys trwy ymyriadau teuluol dwys, targedig. Ar yr un pryd, rydym am sicrhau bod y sancsiynau sydd ynghlwm i'r offer mwy ffurfiol yn darparu grym ataliol priodol i'r lleiafrif cyson; a
- I roi mwy o rym i bobl lunio'r modd mae asiantaethau yn defnyddio'r arweinyfr i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal, yn cynnwys gwneud troseddwr yn fwy atebol i'w diodefwyr a chymuned.

4. DIWYGIO'R PECYN CYMORTH

Mae tystiolaeth y gellir cysylltu ymddygiad gwrthgymdeithasol gweladwy, hyd yn oed problemau a ymddengys i fod yn fychan iawn megis sbwriel neu graffiti, gydag anrhefn cynyddol, troseddau lefel isel ac ofn y cyhoedd o droseddau - yr hyn a elwir yn effaith 'fffenestri wedi torri'. O ganlyniad, gall mynd at wraidd ymddygiad gwrthgymdeithasol - yn arbennig os yw'n droseddol neu wedi ei dargedu at ddiodefwyr bregus - gael effaith arwyddocaol ar ansawdd bywyd mewn cymuned.

Dyma pam fod yr heddlu a'u partneriaid lleol angen pecyn cymorth effeithiol yn cynnwys gorchmynion sifil all ddelio â phroblemau sy'n codi yn gynnar, atal niwed pellach i ddiodefwyr a chymunedau a newid ymddygiad y sawl sy'n troseddau heb o'u rheidrwydd eu gwneud yn droseddwr.

Mae'n harolwg o'r fframwaith presennol yn awgrymu, er bod rhai elfennau'n effeithiol, bod yna gwmpas arwyddocaol i wneud iddo weithio'n well. Yn y bôn, ein nod yw sicrhau fod yr arweinlyfr yn cefnogi'r symudiad tuag at atebolrwydd lleol, gydag ymarferwyr yn gallu delio'n effeithiol â'r materion sy'n bwysig i bobl leol. Ar yr un pryd, rydym eisiau i'r pecyn cymorth gefnogi ymateb mwy cymesur - gydag offer anffurfiol sy'n gweithio'r tro cyntaf, a rhai ffurfiol all helpu troseddwr cyson i newid eu hymddygiad, ond gydag oblygiadau ystyrion os nad ydynt.

Ein hargymhellion allweddol yw i:

Amnewid yr ASBO ac ystod o orchmynion llys eraill wedi eu targedu at unigolion gwrthgymdeithasol gyda dau offeryn newydd:

- **'Gorchmyn Ymddygiad Troseddol'** - gorchmyn ataliol sifil y gellid ei roi ynghlwm i euogfarn, i ddiogelu'r cyhoedd rhag ymddygiad sy'n achosi neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, dychryn neu drallod. Byddai'r gorchmyn yn caniatáu i'r llys wahardd unigolyn o weithgareddau neu lefydd penodol a hefyd yn gofyn i'r troseddwr gyflawni gweithgareddau positif, wedi eu cynnig

gan yr awdurdod perthnasol, i ddelio ag achosion sylfaenol eu troseddau trwy, er enghraifft, driniaeth ar gyfer cyffuriau; a

- **'Gwaharddeb Atal Troseddau'** wedi ei chynllunio i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol cyn iddo ddwysau. Byddai gan y waharddeb faich prawf sifil, gan ei gwneud yn gyflymach a haws i'w sicrhau na'r ASBO. Ar gyfer oedolion, byddai'r gosb am dorri'r waharddeb yn cyfateb i ddirmyg llys, trwy ddirwy neu garchariad. Ar gyfer unigolion dan 18 oed, byddai detholiad o sancsiynau am dorri'r waharddeb, yn cynnwys cyrffw, goruchwyliaeth, gofynion gweithgaredd a charchariad.

Datblygu a gwella sancsiynau eraill ar gyfer troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Tai eisoes wedi cyhoeddi cynigion i gyflymu troi'r tenantiaid mwyaf gwrthgymdeithasol neu droseddol o dai cymdeithasol trwy wneud euogfarn yn gysylltiedig â thair ar gyfer trosedd ddiadwy, neu dorri gorchmyn llys am ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn sail ofynnol am feddiannu. Yn yr un modd, rydym yn awyddus i archwilio sut y gallwn adeiladu ar fesurau presennol i wella'r system i gasglu dirwyon.

Yn fwy cyffredinol, rydym hefyd yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gynigion a sefydlwyd yn y Papur Gwyrdd diweddar ar ddedfrydu ac ailsefydlu a sut i gynyddu'r defnydd o gaffael asedau fel cosb am droseddau: er enghraifft, i archwilio p'un a oes mathau penodol o droseddwr ble gallai cipio asedau fod yn effeithiol a chymesur, a p'un a fyddai gosod cyfyngiadau ar deithiau tramor fod yn gosb atodol ddefnyddiol a ellid ei gorfodi trwy atafaelu pasbort y troseddwr.

Cytuno'r offer i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol penodol i le i:

- **'Orchmyn Amddiffyn Cymunedol'** dwy haen, yn cynnwys hysbysiad Lefel 1 a gyhoeddir gan ymarferwriatal ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol (e.e. graffiti, sŵn gan gymdogion, casgliad

o sbwriel) a grym Lefel 2 i'r heddlu ac awdurdodau lleol gyfyngu ar ddefnydd o lefydd, neu i gau eiddo sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson, gyda sancsiynau troseddol am dorri;

- grym wedi ei symleiddio i'r heddlu **gyfeirio** pobl oddi wrth ardal ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r penodau canlynol yn cynnwys rhagor o fanylion ar yr arfau newydd hyn, ond mae'r tabl isod yn arddangos sut y byddant yn symleiddio'r fframwaith presennol.

System bresennol	Newidiadau arfaethedig
ASBO ar euogfarn	'Gorchymyn Ymddygiad Troseddol' – ar gael ar euogfarn am unrhyw drosedd, ac yn cynnwys gwaharddiadau a chymorth i atal ymddygiad yn y dyfodol sy'n debygol o arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddau pellach.
ASBO	
ASBO Dros Dro	
Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	
Gorchymyn Cefnogaeth Unigol (ISO)	
Gorchymyn Ymyrraeth	'Gwaharddeb Atal Troseddu' – gorchymyn cwbl sifil gyda baich prawf sifil, yn ei gwneud yn haws a chyflymach i'w sicrhau. Byddai gan y waharddeb hefyd waharddiadau a chymorth ynghlwm, ac ystod o sancsiynau sifil am dorri.
Gorchymyn Cau Mannau Cyflenwi Crac	Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (Lefel 2) – grym awdurdod lleol/heddlu i gyfyngu'r defnydd o le neu wneud cais i'r llysoedd i gau eiddo sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson.
Gorchymyn Cau Eiddo	
Gorchymyn Cau Puteindy	
Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig	
Gorchymynion Rheoli Dros Dro Arbennig	
Gorchymyn Gatio	
Gorchymyn Rheoli Cŵn	
Hysbysiad Clirio Sbwriel	Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol (Lefel 1) – hysbysiad a gyhoeddir gan ymarferydd i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson sy'n effeithio ar ansawdd bywyd mewn ardal neu gymdogaeth, gyda chost ariannol am ddiffyg cydymffurfriad, neu sancsiynau eraill ble fo'n berthnasol, e.e. atafaelu offer sy'n creu sŵn.
Hysbysiad Lleihau Sŵn	
Hysbysiad Clirio Graffiti/Difwyniad	
Cyfarwyddyd i Adael	Grym 'Cyfarwyddyd' yr heddlu - grym i gyfarwyddo unrhyw unigolyn sy'n achosi neu'n debygol o achosi trosedd neu anrhefn oddi wrth fan penodol, ac i atafaelu eitemau cysylltiedig
Gorchymyn Gwasgaru	


Rydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i wneud yr offer **anffurfiol a thu allan i'r llysoedd** i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy adferol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gellir defnyddio datrysiadau cymunedol ac adferol i ddelio â materion cymunedol. Bydd hyn yn golygu y byddai unrhyw reswm i swyddogion yr heddlu beidio defnyddio dulliau cyfiawnder adferol i ddelio â digwyddiadau cymunedol fyddai'n elwa mwy o ddelio â nhw tu allan i'r System Gyfiawnder ffurfiol yn cael eu dileu – gan roi ymateb mwy uniongyrchol a chymesur i ddiodefwr, yn ogystal ag arbed amser ac arian.

Yn ogystal â'r symudiadau i wneud Hysbysiadau Cosb am Anrhefn yn fwy adferol a amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd diweddar gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, rydym yn awyddus i sicrhau bod gwarediadau tu allan i'r llys i bobl ifanc yn cynnwys sancsiynau buan, adferol gydag oblygiadau gwirioneddol am ddiffyg cydymffuriad, yn ogystal ag annog rhieni i gymryd mwy o gyfrifoldeb am ymddygiad eu plant.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n datblygu dulliau newydd arloesol o gael cymunedau i gymryd rhan yn y System Gyfiawnder Troseddol, yn arbennig trwy Baneli Cyfiawnder Cymdogaeth, a fyddai'n gweld aelodau o'r gymuned ac ymarferwyr yn

cydweithio i benderfynu sut i ddelio â'r sawl sy'n cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau lefel isel. Mae hyn eisoes yn digwydd mewn sawl rhan o'r wlad, yn cynnwys Sheffield, Chard yng Ngwlad yr Haf a Salford ble mae paneli cymunedol yn helpu asiantaethau lleol i benderfynu ar amodau Cytundebau Ymddygiad Derbyniol gyda'r sawl sy'n troseddu.

Rydym am i wasanaethau gael pethau'n iawn y tro cyntaf, ond weithiau nid yw hyn yn digwydd. Felly, ynghyd â'r gyfres newydd a gwell hon o offer ac atebolrwydd uniongyrchol trwy wybodaeth lefel stryd ar droseddau a chyfarfodydd bîb cymdogaeth rheolaidd, rydym yn ystyried manteision cyflwyno **'Ysgogydd Cymunedol'** ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson nad yw partneriaid diogelwch cymunedol wedi delio â nhw. Byddai hyn yn gosod dyletswydd ar y partneriaid statudol mewn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i weithredu mewn achosion ble mae diodefwr neu gymunedau wedi codi'r un mater dro ar ôl tro a ble mae asiantaethau lleol wedi methu ymateb. Rydym yn bwriadu i'r mesur newydd fod yn fodd amserol ac anfiwrocraidd i'r cyhoedd fynnu eu hawl i ymateb priodol. Byddai'r comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau newydd yn dal asiantaethau yn atebol am eu hymateb, gan



ddefnyddio eu grymoedd i 'alw' Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i mewn os nad oedd y gweithredu yn ddigonol.

Mae'r diagram isod yn dangos sut fyddai elfennau allweddol pecyn cymorth newydd yn cydfyw. Nid yw hyn yn 'gynyddwr' - mae angen i ymarferwyr ddewis yr ymagwedd fwyaf priodol i'r ymddygiad dan sylw ac nid oes rhaid cychwyn yn y gwaelod. Ond byddai'n darparu llwybr cliriach o ganlyniadau a sancsiynau i'r rhai sy'n methu newid eu hymddygiad yn gyson.

Byddai'r cynigion hyn yn berthnasol yn Lloegr a, ble fo'n berthnasol, yng Nghymru. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r materion a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn wedi eu datganoli, mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl o ran diogelwch cymunedol a byddwn yn gweithio gyda nhw ar y cynigion hyn wrth iddynt ddatblygu ymhellach.

CWESTIYNAU:

1. Beth yw'ch barn o'n cynigion ar gyfer diwygio? Yn benodol, a ydych chi'n meddwl bod uno grymoedd i'r gorchmynion newydd arfaethedig yn syniad da?
2. A oes unrhyw arfau a grymoedd eraill i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol y credwch ddylid eu diddymu? Os felly, pam?
3. A ydych chi'n credu y bydd y cynigion hyn yn lleihau biwrocratiaeth ar gyfer gweithwyr rheng flaen? A fydd manteision eraill hefyd?
4. A ydych chi'n credu bod yna risgiau yn gysylltiedig â chyflwyno unrhyw orchmynion newydd?
5. A ydych chi'n credu bod risg y bydd y cynigion hyn yn anghymharus o anfanteisiol i grwpiau penodol? Os felly, sut?
6. Oherwydd bod diogelwch cymunedol yn fater nad yw wedi ei ddatganoli yng Nghymru, a oes materion penodol y dylid eu cydnabod?

4.1 Y GORCHYMYN YMDDYGIAD TROSEDDOL

Ar hyn o bryd mae yna ystod o orchmynion llys sifil y gellir eu rho ynghlwm i euogfarn droseddol i atal unigolyn rhag cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol. Mae'r gorchmynion llys hyn yn gyffredinol boblogaidd gydag ymarferwyr, ac fe ddywedir eu bod yn haws i'w gorfodi na gorchmynion unigol megis yr ASBO, gan y bydd tystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol yr unigolyn wedi ei ddarparu i sicrhau'r euogfarn wreiddiol. Fodd bynnag, mae'r Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar euogfarn (y CRASBO) wedi ei feirniadu am nad yw'n galluogi delio ag achosion sylfaenol ymddygiad unigolyn trwy unrhyw ofynion positif.

SUT FYDDAI'R GORCHYMYN YN GWEITHIO

Rydym yn rhagweld y byddai'r Gorchymyn Ymddygiad Troseddol yn orchymyn sifil ar gael ar euogfarn am unrhyw drosedd, y gellid ei roi i unrhyw un dros oed cyfrifoldeb troseddol ac y byddai'n cymryd lle'r CRASBO. Gellid ei orfodi os byddai'r llys yn ystyried:

- Bod y troseddwr wedi gweithredu, ar unrhyw adeg, mewn modd a achosodd neu oedd yn debygol o achosi aflonyddu, dychryn neu drallod i un neu fwy o bobl nad ydynt o'r un cartref ac ef/hi; **ac**
- Bod angen gorchymyn i ddiogelu unigolion mewn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr rhag gweithredoedd pellach ganddo ef/hi.

Byddai'r Gorchymyn Ymddygiad Troseddol yn atodol i ddedfryd y llys ar gyfer y drosedd, ac nid yn ei le. Byddai ar gael ym mhob llys troseddol, ac fe ellid ei roi i unrhyw un dros oed cyfrifoldeb troseddol (10 mlwydd oed).

Byddai'r gorchymyn yn caniatáu i'r llys osod ystod o waharddiadau ar droseddwr am gyfnod sefydlog, neu nes y bydd gorchymyn llys yn y dyfodol, i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dyfodol ac i ddarparu egwyl i'r gymuned. Byddai hefyd yn galluogi'r llys i osod gofynion positif ar droseddwr i weithredu i ddelio ag achosion sylfaenol eu hymddygiad.

PWY FYDD YN GWNEUD CAIS AM Y GORCHYMYN?

Byddai'r erlynydd yn gallu gwneud cais am y gorchymyn ynghyd ag erlyniad am y drosedd, er y byddai'n rhaid iddynt allu bodloni'r llys fod y gofynion positif a argymhellir ar gael yn yr ardal leol. Byddwn yn edrych ar y broses ymgeisio i weld a oes cyfleoedd i'w symleiddio er mwyn lleihau biwrocratiaeth. Rhaid i'r gorchymyn fod yn briodol i'r unigolyn a'i amgylchiadau, ond ni fyddai unrhyw ofyniad i ddangos y disbyddwyd pob datrysiad arall, nac mai gorchymyn oedd yr unig ddull addas o ddelio â'r broblem.

Cyn gwneud cais am orchymyn ar gyfer rhywun dan 16, pan fydd yn angenrheidiol fe allai'r awdurdod priodol² baratoi adroddiad ar amgylchiadau teuluol yr unigolyn. Gellid defnyddio hyn i hysbysu cais am Orchymyn Rhianta ynghyd â'r gorchymyn, neu i alluogi'r awdurdodau i nodi a thaclo anghenion eraill y rhieni neu'r teulu ehangach trwy, er enghraifft, gefnogaeth gwirfoddol neu Brosiectau Ymyrraeth Teuluol.

Neu, gallai'r llys benderfynu gwneud gorchymyn heb gais gan yr erlyniad, er y byddai'n rhaid i'r llys fod yn fodlon fod unrhyw ofynion positif a argymhellir ar gael.

Byddai'r awdurdod perthnasol yn rhydd i hyrwyddo amodau'r gorchymyn, oni ai y gosodwyd cyfyngiadau adrodd gan y llys.

GWAHARDDIADAU A GOFYNIION POSITIF

Bydd amodau'r gorchymyn yn amrywio yn ôl ymddygiad yr unigolyn, ond fe allai gynnwys gwaharddiadau a gofynion positif. Yn unol â chyfraith achos presennol, rhaid i'r rhain fod yn rhesymol, cyfatebol, realistig, ymarferol, clir a gorfodadwy³. Byddai gwaharddiadau yn ataliol yn hytrach na chosbol.

Bydd yr erlynydd hefyd angen gallu bodloni'r llys bod awdurdod perthnasol mewn safle i fodloni neu gyflawni unrhyw ofynion positif.

¹ Yr 'awdurdodau perthnasol' fyddai'r heddlu, awdurdodau lleol, darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a Thimau Troseddau Ieuencid (ar gyfer gorchymynion yn ymwneud â phob ifanc dan 18)

² R v Boness [2005] EWCA Crim 2395

Mae yna ystod o opsiynau parthed amodau isafswm ac uchafswm ar gyfer y gorchymyn, yn cynnwys:

- Peidio rhagnodi'r un, i alluogi'r llysoedd i ddefnyddio eu doethineb;
- Rhagnodi isafswm cyfnod, ond dim uchafswm. Byddai hyn yn galluogi pennu gorchymynion am ba bynnag hyd sydd angen;
- Peidio rhagnodi isafswm cyfnod, ond gosod uchafswm yn ganllaw i'r llysoedd;
- Cael gwahanol isafswm ac/neu uchafswm cyfnodau yn ddibynnol ar p'un a yw'r troseddwr dan neu dros 18, neu ar p'un a yw dedfryd warchodol ar gael neu wedi ei roi ar gyfer y drosedd wreiddiol (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda gorchymynion Gwahardd Pêl Droed ar euogfarnu).

TORRI

Byddai gweithredu'n groes i'r gorchymyn yn drosedd, gydag ystod o sancsiynau ar gael i'r llys ac uchafswm dedfryd o 5 mlynedd yn y ddalfa. Mae hyn yn unol â gorchymynion eraill ar euogfarnu megis Gorchymynion Ataliol, Gorchymynion Atal Troseddau Difrifol a gorchymynion Gwahardd Pêl Droed. Rydym yn ystyried p'un a ddylid cael gwahanol sancsiynau ar gyfer unrhyw doriad o'r gofynion positif.

CWESTIYNAU:

1. Beth yw'ch barn i'r cynnig i greu Gorchymyn Ymddygiad Troseddol?
2. Gan feddwl am orchymynion sifil presennol ar euogfarnu, a allwch feddwl am ffyrdd o symleiddio'r broses ar gyfer Gorchymyn Ymddygiad Troseddol?
3. Beth yw'ch barn o'r cynnig i gynnwys adroddiad ar amgylchiadau teuluol yr unigolyn wrth wneud cais am orchymyn ar gyfer rhywun dan 16?
4. A oes unrhyw orchymynion sifil eraill ar gael ar hyn o bryd ar euogfarnu y credwch ddylid

eu cynnwys yn y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol? (er enghraifft, y Gorchymyn Gwahardd Yfed)

5. A ddylid cael uchafswm ac isafswm tymhorau ar gyfer Gorchymynion Ymddygiad Troseddol, naill ai i'r rhai dan 18 oed neu i'r rhai dros 18 oed? Os felly, beth ddylent fod, ac a ddylent fod yn wahanol i'r rhai dros neu dan 18 oed?
6. A ddylai'r ddeddfwriaeth gynnwys enghreifftiau o ofynion positif posibl, i dywys awdurdodau sy'n gwneud cais a'r llysoedd?
7. A oes enghreifftiau o ofynion positif (ac eithrio cefnogaeth ffurfiol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol) a ellid ei gynnwys yn y gorchymyn?
8. A ydych chi'n credu y dylai sancsiynau ar gyfer torri elfennau gwaharddol y gorchymyn fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer torri'r elfennau positif?
9. O gymharu â'r gorchymynion presennol ar euogfarn, pa effaith ydych chi'n feddwl fydd ychwanegu gofynion positif i Orchymyn Ymddygiad Troseddol yn cael ar y gyfradd dorri?
10. O gymharu â gorchymynion presennol ar euogfarn, beth ydych chi'n feddwl fyddai'r effaith y Gorchymyn Ymddygiad Troseddol ar i) gostau a ii) deilliannau troseddau?
11. O gymharu â gorchymynion diweddar ar euogfarnu, faint o oriau, ar gyfartaledd, o amser yr heddlu ac ymarferwyr ydych chi'n feddwl fyddai'n cymryd i baratoi a gwneud cais am Orchymyn Ymddygiad Troseddol?

4.2 Y WAHARDEB ATAL TROSEDDU

Er bod cryn dipyn o'r hyn a elwir yn 'ymddygiad gwrthgymdeithasol' ar hyn o bryd yn droseddol, gall fod yn anodd profi y cyflawnwyd trosedd benodol – o bosibl oherwydd diffyg tystion, neu ofn tystion o roi tystiolaeth yn erbyn pobl sy'n byw gerllaw. Nid yw cyfraith droseddol yn addas iawn ar gyfer delio ag effaith gronol

cyfres beth allai ymddangos yn unigol i fod yn ddigwyddiadau cymharol ddibwys gan ganolbwyntio yn hytrach ar gosbau am drosedd benodol. O ganlyniad, credwn fod yr heddlu ac asiantaethau lleol eraill yn dal angen y gallu i ddefnyddio gorchymyn sifil (h.y. wedi eu gosod 'ar y cydbwysedd o debygolrwydd', yn hytrach na 'thu hwnt i amheuaeth resymol') i weithredu yn fuan i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus.

Pan gyflwynwyd yr ASBO yn 1998, fe'i bwriadwyd i fod y gorchymyn sifil hwnnw ond mae ei ddefnydd wedi lleihau ers 2005 wrth i nifer o ymarferwyr ddewis peidio ei ddefnyddio, ymysg rhesymau eraill, oherwydd bod y gost a gwaith papur cysylltiedig yn rhy drafferthus i awdurdodau oedd yn gwneud cais. Fe allai hyn esbonio'r symudiad o ASBOs ar gais i'r CRASBO llai drud a llai biwrocraidd.

Ein nod gyda'r Waharddeb Atal Troseddu yw creu gorchymyn llys sifil pur (h.y. gyda sancsiynau dan gyfraith sifil, yn hytrach na throseddol) y gall asiantaethau eu sicrhau yn fuan i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol unigolyn a diogelu dioddefwyr a chymunedau. Fe allai gynnwys gwaharddiadau ar ymddygiad a gofynion positif i delio â materion sylfaenol, a byddai'n Cymry lle ystod o offer presennol yn cynnwys yr ASBO ar gais, y Waharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Gorchymynion Ymyrraeth, a Gorchymynion Cefnogaeth Unigol.

SUT FYDDAI'R WAHARDEB YN GWEITHIO

I sicrhau Gwaharddeb Atal Troseddau, byddai'n rhaid i'r awdurdod sy'n gwneud cais profi i'r llys 'ar gydbwysedd tebygolrwydd' bod unigolyn yn cymryd rhan mewn, wedi cymryd rhan mewn neu'n debygol o gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol i un neu fwy o bobl nad ydynt o'r un cartref. Byddai tystiolaeth adroddiad ail law yn cael ei ganiatáu, a hefyd defnydd o dystion proffesiynol. Byddai'r waharddeb yn cynnwys gwaharddiadau ar ymddygiad unigolyn yn y dyfodol a gallant hefyd gynnwys gofynion positif i sicrhau bod yr unigolyn yn delio â phroblemau sylfaenol.

I sicrhau Gwaharddeb Atal Troseddau, byddai'n rhaid i'r awdurdod sy'n gwneud cais brofi i'r llys 'ar gydbwysedd tebygolrwydd' bod unigolyn yn cymryd rhan mewn, wedi cymryd rhan mewn neu'n debygol o gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol i un neu fwy o bobl nad ydynt o'r un cartref. Byddai tystiolaeth adroddiad ail law yn cael ei ganiatáu, a hefyd defnydd o dystion proffesiynol. Byddai'r waharddeb yn cynnwys gwaharddiadau ar ymddygiad unigolyn yn y dyfodol a gallant hefyd gynnwys gofynion positif i sicrhau bod yr unigolyn yn delio â phroblemau sylfaenol.

Un o'r materion yr ydym yn awyddus i gasglu barn arnynt yw ar y prawf a ddefnyddiwyd gan y llys i ystyried p'un ai i gyflwyno'r waharddeb. Un opsiwn fyddai i ddefnyddio'r diffiniad cyfreithiol a sefydlwyd yn Neddf Trosedd ac Anrhefn 1998 – bod ymddygiad yr unigolyn wedi achosi, neu'n debygol o achosi, aflonyddu, dychryn neu drallod i un neu fwy o bobl nad ydynt o'r un cartref. Un arall fyddai i ddefnyddio'r trothwy is a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer Gwaharddebau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBIs) sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol neu 'ymddygiad sy'n achosi neu'n debygol o achosi niwsans neu flinder i unigolyn nad yw o'r un cartref a'i hun'. Byddai'r ail yn caniatáu i asiantaethau gymryd ymagwedd fwy rhagweithiol, gan ymyrryd yn gynt a chynharach i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag gwaethygu.

Mae yna gwestiwn o ran p'un a ddylid clywed y Waharddeb Atal Troseddau yn y Llys Ynadon neu'r Llys Sirol. Mae yna ddadleuon cryf dros ystyried y waharddeb ar gyfer unigolion dros 18 oed yn y Llys Ynadon, ond mae dadleuon hefyd dros roi gwrandawriad iddo yn y Llys Sirol, fel y gwneir gyda gwaharddebau yn ymwneud â thai ar hyn o bryd.

- Mae gan Lysoedd Ynadon fwy o gynhwysedd, ac maent yn dueddol o gynnig gwell diogelwch ac amddiffyniad i dystion. Ynadon yw'r pwynt allweddol o gyfiawnder lleol yn y gymuned leol ac mae ganddynt brofiad o ddelio ag achosion

ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan mai nhw sy'n dueddol o glywed ceisiadau ASBO. Fodd bynnag, mae ynadon yn llai cyfarwydd â'r gyfraith sifil, a'r baich prawf sifil. Mae gan ynadon hefyd rymoedd dedfrydu is ar gyfer dirmyg llys na barnwyr yn y Llys Sirol ac maent wedi arfer llai â delio ag achosion dirmyg;

- Mae Llysoedd Sir yn fwy cyfarwydd â gwaharddebau sifil a'r baich prawf sifil. Mae ganddynt hefyd rymoedd dedfrydu uwch na'r Llysoedd Ynadon. Ond mae gan Lysoedd Sirol lai o gynhwysedd, ac maent hefyd yn dueddol fod â llai o ddarpariaethau diogelwch, megis dociau a chelloedd diogel.

Byddem yn rhagweld y byddai'r Waharddeb Atal Troseddau ar gael i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan droseddwyr 10 i 17 oed, ac unwaith eto, mae opsiynau ar ble ddylid gwrandawrio'r achosion hyn. Yn benodol y cwestiwn yw p'un a ddylid ei glywed yn yr un llys a'r waharddeb i oedolion (naill ai'r Llys ynadon neu'r Llys Sirol); neu os bydd gwaharddeb i oedolion yn cael gwrandawriad yn y Llys Ynadon, p'un a ddylid rhoi gwrandawriad i'r sawl dan 18 yn y Llys leuenctid.

- Y Llys leuenctid sydd yn y safle gorau i ddelio ag achosion ar gyfer rhai dan 18 oed, ond dim ond mewn achosion troseddol y mae ganddo awdurdod ar hyn o bryd. Felly rydym yn awyddus i glywed barnau ar p'un a ddylid ymestyn awdurdod y Llys leuenctid i ystyried y Waharddeb Atal Troseddau, a thoriadau dilynol.
- Mae rhywfaint o gynsail i glywed achosion ieuenctid yn y Llys Sirol, gan fod gwaharddebau gangiau ar gyfer unigolion dan 18 ar fin cael eu profi yma, ond mae hynny yn galw am drefniadau arbennig megis bod 'cyfaill ymglyfreithiad' yn gwmni i'r troseddwr, yn ogystal â'u cyfreithiwr. Opsiynau cyfyngedig iawn sydd gan y Llysoedd Sirol hefyd ar gyfer dedfrydu unigolion dan 18.

PWY FYDD YN GWNEUD CAIS AM Y WAHARDEB?

Byddai heddluoedd, awdurdodau lleol a darparwyr cofrestredig tai cymdeithasol yn gallu gwneud cais am y waharddeb, gan ymgynghori â'r Tîm Troseddau Ieuencid perthnasol cyn unrhyw gais yn ymwneud ag unigolyn dan 18 oed.

Cyn gwneud cais am waharddeb ar gyfer rhywun dan 16 oed, fe allai'r awdurdod priodol baratoi adroddiad ar amgylchiadau teuluol yr unigolyn. Gellid defnyddio hyn i hysbysu cais am Orchymyn Rhianta ynghyd â'r waharddeb, neu i alluogi'r awdurdodau i nodi a delio ag anghenion eraill y rhieni neu'r teulu ehangach trwy gefnogaeth wirfoddol, neu fesurau megis Prosiectau Ymyrraeth Teuluol.

GWAHARDDIADAU A GOFYNION POSITIF

Bydd amodau'r waharddeb yn amrywio yn ôl ymddygiad yr unigolyn, ond fe allai gynnwys gwaharddiadau a gofynion positif. Yn unol â chyfraith achos presennol, rhaid i'r rhain fod yn rhesymol, cyfatebol, realistig, ymarferol, clir a gorfodadwy. Byddai gwaharddiadau yn ataliol yn hytrach na chosbol a byddai gofynion positif, yn cynnwys unrhyw gefnogaeth ffurfiol, yn cael eu cynnig gan yr awdurdod sy'n cyflwyno'r cais. Er enghraifft, os yw troseddwr yn cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rheolaidd mewn ardal benodol, fe ellir ei wahardd ef neu ei gwahardd hi rhag dychwelyd i'r ardal a gofyn iddynt gyflawni cwrs rheoli dicter, neu os yw perchennog ci yn arddangos diffyg rheolaeth cyson dros gi ymosodol fe ellid ei wahardd rhag cerdded y ci mewn ardaloedd penodol ac/neu ofyn iddo gadw ei gi ar dennyn ac/neu wedi ei ffrwyno yn gyhoeddus gan gynnwys yn ei ardd neu mewn mannau gyda mynediad cyffredin.

Fel gyda Gorfodebau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBIs) yn ymwneud â thai presennol, gellid atodi grym arestio i'r gwaharddebau ble roedd risg o niwed i'r dioddefydd neu'r gymuned (e.e. os oes gan y troseddwr hanes o drais). Ni fyddem yn

rhagweld y byddai'r grym arestio yn cael ei atodi i ofynion positif.

Fel gyda'r Gorchymyn Ymddygiad Troseddol, mae yna ystod o ddewisiadau parthed isafswm ac uchafswm cyfnodau ar gyfer y waharddeb, yn cynnwys:

- Peidio rhagnodi'r un, i alluogi'r llysoedd i ddefnyddio eu doethineb;
- Rhagnodi isafswm cyfnod, ond dim uchafswm. Byddai hyn yn galluogi pennu gorchymynion am ba bynnag hyd sydd angen;
- Peidio rhagnodi isafswm cyfnod, ond gosod uchafswm yn ganllaw i'r llysoedd;
- Cael isafswm ac/neu uchafswm cyfnod Gwahanol yn ddibynnol ar p'un a yw'r troseddwr dan neu dros 18 oed.

TORRI

Byddai angen profi toriad o'r Waharddeb Atal Troseddu 'tu hwnt i amheuaeth resymol' ond ni fyddai'n drosedd droseddol ac ni fyddai'n arwain at gofnod troseddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r gosb bresennol ar gyfer torri ASBIs.

Byddai torri gwaharddeb fel arfer yn cael ei drin fel dirmyg llys. Os bydd gwrandawriad y Waharddeb Atal Troseddu yn y Llys Sirol, byddem yn awgrymu delio a'i thorri ar gyfer unigolion dros 18 oed fel dirmyg llys, yn yr un modd ag y delir â thorri ASBI ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os rhoddir gwrandawriad i Waharddeb Atal Troseddu yn y Llys Ynadon, byddem yn awgrymu sancsiynau penodol ar gyfer torri, yn cynnwys dirwyon ac uchafswm dedfryd o 6 mis. Byddai'r rhain yn sancsiynau sifil, heb unrhyw euogfarn droseddol yn deillio o dorri.

Ar gyfer unigolion dan 18 oed, ni ellir delio â thorri trwy ddirmyg llys, gan nad oes grymoedd i gadw unrhyw un dan 18 yn y ddalfa am ddirmyg llys ac mae dirwyon yn anodd i'w gorfodi⁴. Felly byddai angen sancsiynau amgen er mwyn i'r waharddeb gael ei gorfodi yn y naill llys neu'r llall (Llys Sirol neu Lys

leuenctid). Rydym yn argymell mabwysiadu rhai o'r cyfundrefnau cosbau a ddatblygwyd ar gyfer gwaharddebau gangiau i unigolion dan 18 oed⁵, sef y gall y llys osod gorchymyn goruchwyllo, yn gosod un neu fwy o'r gofynion canlynol ar y sawl sy'n troseddu:

- gofyniad goruchwyllo;
- gofyniad gweithgaredd;
- gofyniad cyrffyw;
- gofyniad dargadw

Mewn achosion ble cafwyd toriad difrifol, neu ble cafwyd nifer o doriadau o'r un gorchymyn, rydym yn argymell y dylai'r llys allu gosod gorchymyn carcharu ar unigolyn ifanc. Eto, byddai'r rhain yn sancsiynau sifil, heb unrhyw euogfarn droseddol yn deillio o dorri.

CWESTIYNAU:

1. Beth yw'ch barn i'n cynigion i amnewid yr ASBO ar gais gydag ystod o orchymynion llys eraill ar gyfer delio ag unigolion gwrthgymdeithasol gyda'r Waharddeb Atal Troseddu?
2. Pa brawf ddylai'r llys weithredu wrth benderfynu p'un ai i gyflwyno Gwaharddeb Atal Troseddu – bod ymddygiad yr unigolyn wedi achosi 'aflonyddu, dychryn neu drallod' neu'r trothwy is o 'niwsans neu flinder'?
3. A ydych chi'n meddwl y dylai'r Waharddeb Atal Troseddu gael gwrandawriad yn y Llys Sirol neu'r Llys Ynadon?
4. A ydych yn meddwl y dylai'r waharddeb gael gwrandawriad yn y Llys Ynadon, neu a ydych yn meddwl y dylid rhoi gwrandawriad Gwaharddeb Atal Troseddu i unigolion dan 18 oed yn y Llys leuenctid?
5. A ddylid cael isafswm ac/neu uchafswm cyfnod ar gyfer y Waharddeb Atal Troseddu? Os felly, pa hyd ddylent fod, ac a ddylent fod yn wahanol i'r rhai dros neu dan 18 oed?

6. A ddylid cael rhestr o ofynion posibl yn y ddeddfwriaeth gychwynol i ddarparu canllaw i farnwyr?
7. A oes enghreifftiau o ofynion positif (ac eithrio cefnogaeth ffurfiol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol) a ellid ei gynnwys yn y gorchymyn?
8. Beth yw'ch barn ar y cosbau arfaethedig am dorri ar gyfer unigolion dros 18 oed a dan 18 oed ar gyfer y Waharddeb Atal Troseddu?
9. O gymharu ag offer presennol, beth ydych chi'n feddwl fyddai'r effaith y Waharddeb Atal Troseddu ar i) gostau a ii) deilliannau troseddu?
10. Pa effaith ydych chi'n credu fyddai cynnwys gofynion positif yn cael ar gyfradd torri'r Waharddeb Atal Troseddu?
11. Gan feddwl am y gwaharddebau sifil eraill sydd ar gael, faint o oriau, ar gyfartaledd, o amser yr heddlu ac ymarferwyr ydych chi'n feddwl fyddai'n cymryd i baratoi a gwneud cais am Waharddeb Atal Troseddu?

4.3 Y GORCHYMYN AMDDIFFYN CYMUNEDOL

Ar hyn o bryd mae yna ystod o offer ar gael i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â lle, yn cynnwys:

- grymoedd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol megis sŵn, graffiti a sbwriel;
- grymoedd i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus (e.e. trwy osod cyfyngiadau ar yfed alcohol neu hawl pobl i ganiatáu i'w ci grwydro'n rhydd mewn ardal benodol); a
- grymoedd i gau eiddo sy'n fagnet ar gyfer troseddau ac anrhefn, megis mannau cyflenwi crac.

Mae'r nifer o offer yn adlewyrchu ymagwedd ymatebol, gynyddol gan ychwanegu mesurau atodol mewn darnau olynol o ddeddfwriaeth

⁴ LB Harrow –v- G (Uchel Lys, 2004)

⁵ Deddf Trosedd a Diogelwch 2010

ers 1998 wrth i faterion newydd godi. O ganlyniad, mae'r pecyn cymorth yn drwsogl ac mae nifer o'r grymoedd yn debyg iawn, gan greu gorgyffyrddiadau arwyddocaol. Mae'r Gorchymyn Cau Eiddo, er enghraifft, bron yn union yr un peth â'r Gorchymyn Cau Man Cyflenwi Crac a'r gorchymyn Cau Puteindy.

Rydym eisiau symleiddio'r pecyn cymorth fel ei fod yn haws i ymarferwyr ddefnyddio, yn fwy dealladwy i'r cyhoedd ac yn haws i'w orfodi. Rydym hefyd eisiau symud y pwyslais o gael offeryn penodol i ddelio â phob math o ymddygiad, i sicrhau y gall gweithwyr proffesiynol ymateb yn effeithiol i ystod o broblemau sy'n bwysig i bobl leol. Felly mae'r Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol yn ceisio uno nifer o'r grymoedd presennol a amlinellir uchod i un lle, un offeryn sifil i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â lle.

SUT FYDDAI'R GORCHYMYN YN GWEITHIO?

Rydym yn cynnigy dylai'r Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol gael dwy lefel o ddifrifoldeb, yn caniatáu ymarferwyr i gwmpasu'r ystod lawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig â lle, o ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol i anrhefn fwy arwyddocaol ac/neu gyson.

Byddai **Lefel 1** yn hysbysiad a gyhoeddir gan ymarferwyr mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol oedd yn effeithio ar ansawdd bywyd dioddefwyr neu gymuned. Byddai'n gofyn i'r derbynydd roi'r gorau i'w hymddygiad ac/neu 'wneud iawn' (h.y. trwy glirio sbwriel) a byddai'n cymryd lle mesurau presennol megis Hysbysiadau Clirio Sbwriel⁶, Hysbysiadau Clirio Graffi/Difwyniad a gellid eu defnyddio fel dewis amgen i Hysbysiadau Lleihau Sŵn⁷ ble roedd y sŵn wedi ei achosi gan unigolyn a y credwyd ei fod yn fwriadol wrthgymdeithasol.

⁶ Argymhellir y bydd y Gorchymyn Amddiffyn Cymuned yn cymryd lle'r Hysbysiadau Clirio Sbwriel. Ni fyddai hyn yn effeithio ar rymoedd gorfodi sbwriel eraill yn y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 na'r Ddeddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005.

⁷ Ni chynigir y dylid addasu'r gyfundrefn niwsans statudol sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ac felly ni fydd y grymoedd a dyletswyddau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol dan y Ddeddf honno yn newid.

Byddai **Lefel 2** yn awdurdod lleol neu rym yr heddlu i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol arwyddocaol ac/neu gyson mewn man penodol. Byddai hyn yn cynnwys gosod cyfyngiadau ar y defnydd o'r gofod hwnnw, er enghraifft cadw cŵn ar dennyn⁸, os darparwyd tystiolaeth digonol o ymddygiad gwrthgymdeithasol i swyddog awdurdod lleol o raddfa benodol⁹. Mewn achosion o anrhefn fwy difrifol neu gyson, gellid darparu tystiolaeth i'r heddlu neu i'r awdurdod lleol Lys yr Ynadon i geisio gorchymyn i gau eiddo am gyfnod cychwynnol o hyd at dri mis, waeth beth yw ei ddaliadaeth. Byddai'r gorchymyn Lefel 2 yn cymryd lle'r Gorchymyn Rheoli Cŵn, y Gorchymyn Gatio, y Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig, y Gorchymyn Cau Eiddo, y Gorchymyn Cau Man Cyflenwi Crac a'r Gorchymyn Cau Puteindy.

PWY ALL ARFER Y GRIMOEDD HYN?

Byddem yn rhagweld ystod o weithwyr proffesiynol yn gallu cyhoeddi Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol Lefel 1, yn cynnwys staff cyngor a chymdeithas tai, fel sy'n wir ar hyn o bryd gyda'r offer y byddai'n amnewid.

Byddai'r gorchymyn Lefel 2 yn cael ei roi gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Os oedd y gorchymyn yn gosod cyfyngiadau ar ddefnydd o ofod (ond nid yn ei gau'n gyfan gwbl), yna gellid cytuno ar hyn gyda'r awdurdod lleol ac ni fyddai'n rhaid ei glywed yn y llys (fel sy'n wir ar hyn o bryd gydag e.e. Gorchymynion Rheoli Cŵn). Os mai bwriad y gorchymyn oedd gau eiddo, byddai angen i Lys yr Ynadon gymeradwyo hyn (fel sy'n wir ar hyn o bryd gydag e.e. Gorchymynion Cau Eiddo).

TORRI

Byddai methiant i gydymffurfio â gorchymyn Lefel 1 yn drosedd, fel sy'n wir ar hyn o bryd gyda'r rhan fwyaf o offer y byddai'n amnewid. Gellid ei gosbi'n gyffredinol gyda Hysbysiad Cosb Sefydlog neu, os oedd y drosedd yn cael

⁸ Fel sy'n bosibl ar hyn o bryd trwy Orchymynion Rheoli Cŵn, a gyflwynwyd yn Neddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005

⁹ Er enghraifft, swyddog o raddfa uwch-arolygydd neu uwch, neu unigolyn priodol ar yr awdurdod lleol (fel y dynodwyd yn y rheoliadau)

gwrandawriad llys, gyda dirwy. Fodd bynnag, ble datblygwyd sancsiynau penodol i ddelio â mathau penodol o ymddygiad (er enghraifft, atafaelu offer gwneud sŵn, neu allu awdurdod lleol i glirio sbwriel ac yna adfer y gost gan y troseddwr), byddem un gwarchod y rhain.

Byddai torri gorchymyn Lefel 2 yn drosedd, fel sy'n wir ar hyn o bryd gyda'r rhan fwyaf o offer y byddai'n amnewid, gyda'r gosb yn ddibynnol ar p'un a osodwyd cyfyngiadau, neu p'un a oedd yr eiddo wedi ei gau. Os na gydymffurfiwyd â chyfyngiadau a osodwyd gan yr awdurdod lleol, gellid cosbi torri gyda dirwy yn y fan a'r lle o £50 neu arestio ac erlyniad am ddirwy Lefel 2 gydag uchafswm dirwy o £500¹⁰. Ble gorchymynnwyd cau eiddo gan Lys ynadon, gellid cosbi torri hyn gyda dirwy o hyd ar 6 mis o garchar, fel sy'n wir ar hyn o bryd ar gyfer e.e. Gorchmynion Cau eiddo a gorchmynion Cau Mannau Cyflenwi Crac.

CWESTIYNAU:

10. Beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig i ddod ag offer presennol i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â lle cyson ynghyd i un Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol?
11. A oes unrhyw broblemau gyda'r offer presennol y credwch y dylid delio â nhw yn y gorchymyn Amddiffyn Cymunedol?
12. A oes unrhyw offer presennol y credwch y dylid eu cynnwys, megis Gorchymyn Rheoli Interim Arbennig?
13. Pwy ddylai gael y grym i ddefnyddio Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol Lefel 1?
14. O gymharu ag offer presennol, beth ydych chi'n feddwl fyddai'r effaith y Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol ar (i) gostau a (ii) deilliannau troseddu?
15. yn eich maes chi, a oes unrhyw ddyblygu o orchmynion presennol a gyhoeddwyd i ddelio â phroblemau y deliwyd â nhw yn defnyddio'r naill lefel neu'r llall o'r

Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol? Os felly, a allech ddynodi graddfa'r dyblygiad?

16. Pa effaith ydych chi'n credu fyddai cyflwyniad y Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol yn cael ar y nifer o orchmynion a gyhoeddir?
17. gan feddwl am orchmynion presennol i daclo anrhefn amgylcheddol, faint o oriau ydych chi'n feddwl fyddai angen i baratoi a chyhoeddi Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol Lefel 1? A yw hyn yn fwy neu'n llai na'r amser a gymer i gyhoeddi hysbysiadau presennol wedi eu hanelu at daclo'r un problemau?
18. Gan feddwl am orchmynion yn ymwneud â llefydd, faint o oriau ydych chi'n feddwl fyddai'n cymryd, ar gyfartaledd, i baratoi a gweithredu Gorchymyn Amddiffyn Cymunedol Lefel 2?

4.4 Y GRYM CYFARWYDDO

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r heddlu wedi cael nifer o rymoedd i ofyn i bobl adael ardal os ydynt yn achosi, neu'n debygol o achosi, ymddygiad gwrthgymdeithasol:

- Fe roddodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 rymoedd newydd i'r heddlu yng Nghymru a Lloegr i wasgaru grwpiau o ddau neu fwy o bobl o ardaloedd ble ceir ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson;
- Fe gyflwynodd Deddf 2003 hefyd y grym i fynd ag unrhyw berson ifanc dan 16 sydd allan ar y strydoedd mewn parth gwasgaru rhwng 9pm a 6am ac nad yw yng nghwmni oedolyn adref;
- Rhoddodd Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006 rym i gwnstabl mewn lifrai cyfeirio unigolyn sy'n 16 oed neu'n hŷn i adael ardal - ac i beidio dychwelyd am hyd at 48 awr - os ydynt yn credu bod eu presenoldeb yn debygol o gyfrannu tuag at droseddu ac anrhefn yn gysylltiedig ag alcohol;

¹⁰ Fel sy'n wir ar hyn o bryd ar gyfer Gorchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig

- Mae Gorchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig yn rhoi grymoedd i'r heddlu atafaelu alcohol mewn mannau cyhoeddus penodol

Nid yw unigolyn y gofynnir iddo adael ardal dan un o'r grymoedd wedi cyflawni trosedd, ond mae gwrthod cydymffurfio yn drosedd.

Rydym yn cynnig cyfuno'r elfennau mwyaf effeithio o'r amrywiol rymoedd hyn i un grym unigol, symlach i gyfeirio pobl oddi wrth ardal ble maent yn cyflawni, neu'n debygol o gyflawni, ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ar yr un pryd, rydym yn awyddus i geisio taro'r cydbwysedd priodol rhwng gallu cymuned i fwynhau ei llefydd cyhoeddus, a hawliau sifil unigolion a grwpiau. O ganlyniad, er ein bod yn meddwl y dylai gwrthod cydymffurfio â'r grym newydd hwn fod yn drosedd, fel y mae torri'r amrywiol rymoedd presennol, rydym yn ymgynghori ar y gosb fwyaf priodol. Dylai'r grym newydd hefyd fod yn ddibynnol ar ymddygiad gwirioneddol, yn hytrach na phresenoldeb unigolyn mewn ardal benodol (rhan o'r prawf a ddefnyddir ar gyfer y grymoedd dan Adran 27 Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003). Ond rydym yn awyddus i glywed barnau ar p'un a ddylid cael mesurau diogelwch atodol i sicrhau y'i defnyddir yn gymesur, nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn adrannau penodol o gymdeithas ac nad yw'n amharu ar, er enghraifft yr hawl i brotestio.

SUT FYDDAI'R GRYM YN GWEITHIO

Byddai'r grym Cyfeirio yn galluogi cwnstabl neu Swyddog Cymorth Plismona Cymdogaeth i ofyn i rywun sy'n 10 oed neu'n hŷn i adael ardal benodol, ac i beidio dychwelyd am hyd at 48 awr. Y profion ar gyfer y swyddog cyhoeddi fyddai:

- bod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd, anrhefn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n debygol o achosi neu gyfrannu at achos o neu barhad trosedd, anrhefn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal honno; a

- Bod rhoi cyfarwyddyd yn angenrheidiol er mwyn diddymu neu leihau'r tebygolrwydd y bydd yr unigolyn yn cyflawni trosedd, anrhefn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal honno.

Gallai'r grym hefyd cynnwys gofynion eilaidd dewisol, megis gofyn i'r unigolyn ildio eitemau (megis diodydd alcoholig) sy'n cyfrannu tuag at eu hymddygiad gwrthgymdeithasol.

Byddai'r ardal y gofynnwyd i'r unigolyn adael y cael ei diffinio gan y swyddog sy'n cyhoeddi'r cyfarwyddyd. Mewn ambell achos (e.e. parthed mannau poeth ymddygiad gwrthgymdeithasol adnabyddus), gallai hyn olygu rhoi map i'r sawl sy'n cyflawni trosedd gyda'r ardal ddynodedig wedi ei marcio'n glir, fel y mae rhai heddluoedd eisoes yn wneud.

Gallai'r grym hefyd gynnwys y gallu i ddychwelyd pob ifanc dan 16 oed nad ydynt yng nghwmni oedolyn i'w cartref, yn amodol i fesurau diogelwch priodol.

PWY ALLAI DDEFNYDDIO'R GRYM CYFEIRIO

Byddai ar gael i swyddogion yr heddlu a Swyddogion Cymorth Plismona Cymdogaeth yn unig.

TORRI

Dan y ddeddfwriaeth bresennol, dim ond pan fydd rhywun yn gwrthod gadael yr ardal yn dilyn cyfarwyddyd gan swyddog yr heddlu neu Swyddog Cymorth Plismona Cymdogaeth fydd trosedd wedi ei chyflawni. Rydym yn cynnig cadw'r ddarpariaeth hon dan y grym newydd. Fodd bynnag, er ei bod yn bosibl fod gan yr heddlu'r awdurdod i orfodi'r grym hwn, i sicrhau y gall pobl fwynhau eu mannau cyhoeddus, rydym yn awyddus i osgoi troseddoli pobl, yn arbennig pobl ifanc, oni bai ei bod yn wir angenrheidiol. Felly rydym am gael eich barn ar y gosb fwyaf priodol ar gyfer torri'r grym Cyfeirio newydd.

CWESTIYNAU:

8. Beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig i gyfuno'r grymoedd heddlu presennol hyn i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i un grym Cyfeirio unigol?
9. A ydych chi'n meddwl y dylai'r grym fod ar gael i Swyddogion Cymorth Plismona Cymdogaeth yn ogystal â swyddogion yr heddlu?
10. Pa fesurau diogelwch ydych chi'n feddwl a ddylid sefydlu i sicrhau bod y grym hwn yn cael ei ddefnyddio'n gymesur ac nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol, yn arbennig pobl ifanc?
11. Beth ydych chi'n feddwl fyddai'r gosb fwyaf priodol ar gyfer torri'r grym Cyfeirio newydd?
12. Gan feddwl am rymoedd presennol i adael ardal, faint o amser yr heddlu ac awdurdodau lleol ydych chi'n feddwl a ellid ei arbed trwy gael gwared ar y gofyniad i gael ardal ddynodedig ar gyfer symud unigolion neu grwpiau ohoni?
13. Beth ydych chi'n feddwl fyddai effaith cael gwared ar yr angen am ardal wedi ei dynodi ar y nifer o Gyfarwyddiadau a gyhoeddir?
14. A ydych chi'n disgwyl cael newid yn y defnydd o'r grym Cyfeirio (o gymharu â'r defnydd o offer presennol)? Os felly, beth ydych chi'n feddwl fydd y newid a pha gyfran o rymoedd Cyfeirio fydd wedi eu hanelu at unigolion dan 18 oed?

4.5 OFFER ANFFURFIOL A PHENDERFYNIADAU TU ALLAN I'R LLYS

Mae penderfyniadau anffurfiol a thu allan i'r llys yn rhan bwysig o becyn cymorth gweithwyr wrth ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnig ymateb cyfrannol i ddigwyddiadau tro cyntaf neu lefel isel. Un o'n hamcanion wrth ddiwygio'r ymagwedd i ymddygiad gwrthgymdeithasol yw gwneud y math hwn o ymyrraeth gynnar yn fwy effeithiol, fel bod llai o bobl - pobl ifanc yn benodol - yn mynd ymlaen i droseddu difrifol.

OFFER ANFFURFIOL

Defnyddir offer anffurfiol megis llythyrau rhybudd a Chytundebau Ymddygiad Derbyniol (ABAs) yn aml i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel, gydag un ymyrraeth yn aml yn ddigon i atal yr ymddygiad rhag ailddigwydd. Gall asiantaeth ddefnyddio ABAs gyda throseddwr o bob oed a chefnidir ac mae eu hyblygrwydd yn eu galluogi i'w llunio yn ôl yr amgylchiadau unigol. Ar hyn o bryd, maent yn dueddol o gynnwys cytundeb rhwng y troseddwr ac ymarferydd, ond mae rhai ardaloedd lleol yn archwilio dulliau o ymgysylltu â'r gymuned a'u gwneud yn fwy adferol.

Er enghraifft, mae Cyngor Dinas Salford wedi defnyddio ymagwedd arloesol u ymgysylltu â'r gymuned wrth osod amodau ABA, gan brofi paneli dan gadeiryddiaeth gwirfoddolwyr lleol cymwysedig sydd wedi cytuno ar ABAs gyda phobl ifanc lleol. Rydym yn awyddus i amlygu'r math hwn o arloesi, a hefyd i gael gwared ar rwystrau i gynnwys cymunedau ehangach i lunio'r modd mae asiantaethau lleol yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

CYFIAWNDER ADFEROL

Rydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i wneud yr offer anffurfiol a thu allan i'r llysoedd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy adferol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y gellir defnyddio datrysiadau cymunedol ac adferol i ddelio â materion cymunedol. Bydd hyn yn sicrhau y byddai unrhyw reswm i swyddogion yr heddlu beidio defnyddio dulliau cyfiawnder adferol i ddelio â digwyddiadau cymunedol fyddai'n elwa mwy o ddelio â nhw tu allan i'r system gyfiawnder troseddol ffurfiol yn cael eu dileu - gan roi ymateb mwy uniongyrchol a chymesur i ddiodefwr, yn ogystal ag arbed amser ac arian.

PENDERFYNIADAU TU ALLAN I'R LLYS

Bwriad penderfyniadau tu allan i'r llys, megis rhybuddion, rhybuddion amodol a hysbysiadau cosb am anrhefn (Hysbysiadau Cosb am Anrhefn) yw delio â throseddu lefel isel, yn aml am y tro cyntaf, ble na fyddai erlyniad er lles y cyhoedd.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn archwilio'r defnydd o benderfyniadau tu allan i'r llys ac mae wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd (Torri'r Cylch: Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwy yn Effeithiol) yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer ymgynghori sy'n berthnasol i'r arolwg o ymddygiad gwrthgymdeithasol¹¹.

Parthed penderfyniadau tu allan i'r llys, mae'r Papur Gwyrdd yn cynnig addasu'r cynllun PND i ganiatáu i'r sawl a ddrwgdybir dalu i fynychu cyrsiau addysgol priodol fel dewis amgen i ddim ond talu dirwy ariannol. Bydd hyn yn helpu unigolion i ddeall y niwed a choswyd gan eu hymddygiad ac yn lleihau'r tebygolrwydd o droseddau pellach. Mae hefyd yn ceisio barn ar symleiddio'r fframwaith penderfyniadau tu allan i'r llys trwy uno grymoedd yr heddlu i ddefnyddio rhybuddion syml ac amodol yn unol â'u grymoedd i godi tâl ar yr unigolion a ddrwgdybir.

Parthed unigolion dan 18, mae'r ymgynghoriad yn cynnig rhoi diwedd ar y system bresennol o gynyddu awtomatig o benderfyniadau tu allan i'r llys ar gyfer pobl ifanc a dychwelyd y doethineb i benderfynu i weithwyr rheng flaen gan fod pryderon bod hyn wedi arwain at gynyddu anfon pobl ifanc i'r llys a'r ddalfa yn gyflymach na fyddai fel arall yn wir.

Rydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod penderfyniadau tu allan i'r llys ar gyfer pobl ifanc yn cynnwys cosbau buan, adferol gydag oblygiadau gwirioneddol o ran diffyg cydymffurfiad, yn ogystal ag annog rhieni i gymryd mwy o gyfrifoldeb am ymddygiad eu plant.

Mae ymgynghoriad y Papur Gwyrdd yn agored tan 4 Mawrth 2011, a cheir manylion sut i ymateb ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

CWESTIYNAU:

1. Sut ydych chi'n meddwl y gallai offer mwy adferol ac adsefydlol anffurfiol a phenderfyniadau tu allan i'r llys helpu lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol?
2. Beth yw'r rhwystrau sy'n atal cymunedau rhag cymryd rhan yn y modd mae asiantaethau yn defnyddio penderfyniadau anffurfiol a thu allan i'r llys yn eu hardal?
3. A ydych chi'n meddwl fod yna unrhyw newidiadau eraill i'r penderfyniadau anffurfiol a thu allan i'r llys allai helpu tacio ymddygiad gwrthgymdeithasol?

4.6 YR YSGOGYDD CYMUNEDOL

Gall y diffiniad cyffredinol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a'r ystod o asiantaethau sy'n gysylltiedig â'i daclo, arwain at ansicrwydd o ran pwys sy'n gyfrifol am ddelio â phroblem benodol ar lefel leol. O ganlyniad, gall dioddefwyr arwain at ddioddefwyr yn canfod eu bod yn cael eu pasio o un asiantaeth i'r llall, neu'n adrodd yr un broblem dro ar ôl tro. Mae hyn wedi ei waethygu gan duedd ymysg rhai asiantaethau i beidio rhoi sylw digonol i effaith digwyddiad ar y dioddefydd neu'r gymuned.

Rydym eisiau i asiantaethau lleol ei gael yn iawn y tro cyntaf, ond pan na fyddant, rydym yn cynnig rhoi mwy o rym i bobl i lunio'r modd mae'r heddlu ac asiantaethau eraill yn ymateb i'w mater yn eu hardal, yn arbennig y rhai sydd wedi profi ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson, targedig. Felly rydym yn cynnig cyflwyno, ynghyd â'r pecyn cymorth wedi ei symleiddio, gwybodaeth ar droseddau ar lefel stryd a chyfarfodydd bîd cymdogaeth rheolaidd, dyletswydd newydd ar aelodau statudol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP)¹² – sy'n cynnwys yr heddlu ac awdurdod lleol – i weithredu i ddelio ag

¹¹ Gellir dod o hyd i'r Papur Gwyrdd yn: <http://www.justice.gov.uk/consultations/breaking-cycle-071210.htm>

¹² Byddai hyn yn eithrio erlynywyr a Gwasanaeth Llysoedd EM.

ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson y mae dioddefwyr neu gymunedau yn ddioddef. Byddai'r ddyletswydd yn cael ei hysgogi gan aelodau o'r cyhoedd yn gwneud cwyn sy'n bodloni meini prawf penodol.

Wedi ysgogi'r ddyletswydd, byddai angen i un partner neu fwy o fewn y Bartneriaeth i gymryd camau i ddatrys y broblem, ac ymateb i'r achwynwyr yn esbonio beth mae'n argymhell gwneud. Byddai'r ymateb hwnnw yn cael ei gopïo i'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau etholedig, a fyddai â'r grym i alw ar y Bartneriaeth os nad oedd ef neu hi'n meddwl fod yr ymateb arfaethedig yn ddigonol.

SUT FYDDAI'R YSGOGYDD YN GWEITHIO

Mae sawl enghraifft o fecanweithiau ysgogi sydd eisoes yn weithredol, ac mae ganddynt drothwyon i sicrhau defnydd dilys. Er enghraifft, roedd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn caniatáu i unigolyn fynnu gweithredu gan eu hawdurdod lleol i ddelio â llwyn leylandii cymydog oni bai:

- nad oedd yr achwynydd wedi cymryd pob cam rhesymol i ddatrys y materion yr achwynwyd amdanynt heb fynd ymlaen i gŵyn o'r fath i'r awdurdod; neu
- os oedd y cwyn yn wacsaw neu flinderus. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu digon o dir o fewn bwrdeistref neu blwyf i fodloni galw lleol am randiroedd os bydd chwe etholwr cofrestredig yn ysgrifennu at y cyngor.

Gyda'r ysgogydd arfaethedig ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, byddem yn rhagweld mai'r maen prawf fyddai:

- Bod pum unigolyn, o bump cartref gwahanol yn yr un gymdogaeth, wedi achwyn am yr un mater, ac na weithredwyd; neu
- Bod yr ymddygiad dan sylw wedi ei adrodd i'r awdurdodau gan unigolyn o leiaf dair gwaith (er enghraifft, mewn cyfarfodydd bêt cymdogaeth), ac na weithredwyd; a

- Gallai Partneriaeth Diogelwch Cymuned wrthod y gŵyn os oeddent yn pennu ei bod yn faleisus (e.e. wedi targedu at unigolyn neu deulu penodol neu ar unrhyw sail wahaniaethol¹³).

Byddai cwynion oedd yn bodloni'r meini prawf hyn yn ysgogi dyletswydd gyfunol ar y partneriaid statudol mewn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol i weithredu i ddelio â'r broblem. Byddai'n rhaid i'r Bartneriaeth ysgrifennu at yr achwynwyr o fewn cyfnod penodol o amser (e.e. 14 niwrnod), gan sefydlu beth y mae'n bwriadu gwneud i ddelio â'r ymddygiad dan sylw, yn cynnwys defnydd o unrhyw offer neu rymoedd, yn ogystal ag unrhyw gymorth sydd angen gan yr achwynwyr neu'r gymuned ehangach (e.e. casglu tystiolaeth, neu adrodd digwyddiadau pellach).

Byddai'r Bartneriaeth yn copïo ei ymateb i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Os byddai'r Comisiynydd yn pennu na fu'r ymateb yn ddigonol, yna gallai arfer ei rymoedd neu ei grymoedd i "alw" y Bartneriaeth i mewn neu i ddyfarnu grant i ddelio â'r broblem.

HYBLYGRWYDD LLEOL

Rydym yn argymhell y dylai hon fod yn ddyletswydd statudol, gyda'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cael hyblygrwydd i benderfynu sut i'w weithredu'n ymarferol. Oni bai am sefydlu ambell egwyddor allweddol ac arfer da am ddulliau o alluogi pobl leol i wneud cwyn, byddem yn rhagweld rhagnodiad canolog minimol dros sut mae ardaloedd yn gweithredu'r ysgogydd, sut y byddant yn ei hyrwyddo neu sut maent yn ymateb i gwynion.

MECANWEITHIAU CWYNO ERAILL

Mae gan yr heddlu ac awdurdodau lleol, yn ogystal â darparwyr tai cyhoeddus cofrestredig, fecanweithiau cwynion ar gyfer y rhai sy'n anfodlon â'u gwasanaethau, er enghraifft, trwy Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Thai. Fodd bynnag, byddai'r Ysgogydd Cymunedol arfaethedig

¹³ Seiliau gwahaniaethol fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010

yn galluogi dioddefwyr a chymunedau i fynnu gweithredu buan i ddatrys problem leol ble na chafwyd gweithredu. Byddai'r ffocws felly ar atal ymddygiad yn y dyfodol, yn hytrach na gweithio allan beth oedd wedi mynd o'i le yn y gorffennol.

CWESTIYNAU:

4. Beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i ddelio â chwynion o ymddygiad gwrthgymdeithasol cyson?
5. A ydych chi'n meddwl bod y meini prawf ar gyfer yr Ysgogydd Cymunedol y rhai priodol? A oes unrhyw feini prawf arall y credwch ddylid eu hychwanegu?
6. A ydych chi'n credu bod risg y bydd y cynnig hwn yn anghymharus o anfanteisiol i grwpiau penodol? Os felly, pa fesurau a ellid eu gweithredu i atal hyn?

5. DIWYGIO EHANGACH

Ein nod yn y bôn yw sicrhau ble fo cymuned neu ddiodefwr yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ymgyrch gydunol o droseddau casineb - yn arbennig y math o aflonyddu targedig, cyson a welir mewn nifer o achosion proffil uchel - yw bod yr heddlu ac asiantaethau lleol eraill yn delio â'r broblem o ddifrif, yn cymryd y camau angenrheidiol i'w atal yn barhaol, ac i ddiogelu diodefwyr bregus. Ni fydd gwella'r pecyn cymorth ynddo'i hun yn ddigon i gyflawni'r nod honno, ac mae'r cynigion a gyflwynir yma yn rhan o becyn ehangach o ddiwygiadau. Yn benodol, dylid ystyried yr offer a grymoedd newydd ynghyd â'n cynlluniau i gynyddu atebolrwydd lleol fel bod yr heddlu a'u partneriaid yn canolbwyntio ar beth sydd bwysicaf i ddiodefwyr a'r cyhoedd, ac i rymuso cymunedau i gymryd mwy o ran yn y frwydr yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymdogaeth.

CANOLBWYNTIO'R HEDDLU A PHARTNERIAID AR BETH SY'N BWYSIG I'R CYHOEDD

O 2012, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau etholedig yn arwain yr ymateb i droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymdogaethau, yr ydym yn disgwyl i barhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r cyhoedd sy'n pleidleisio.

Yn y cyfamser, bydd ystod o fesurau eraill hefyd yn annog yr heddlu ac asiantaethau eraill i gymryd ymddygiad gwrthgymdeithasol o ddifrif, ac i wella eu hymatebion i ddiodefwyr a'r cyhoedd:

- Fel y cyhoeddwyd ym mis Ionawr, mae wyth o heddluoedd, gyda chefnogaeth gan y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) ac eraill, wedi gwirfoddoli i brofi ymagwedd newydd i ddelio â galwadau gan y cyhoedd ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac amddiffyn diodefwyr mynych a bregus. Nid yw'r ymagwedd newydd yn ddatrasiad 'un maint i bob esgid' o'r canol - bydd gwirfoddolwyr yn penderfynu drostynt eu hunain sut i weithredu pum egwyddor

allweddol a ddatblygwyd ar sail profiad rheng flaen, a byddwn yn asesu beth sy'n gweithio orau yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae hyn yn nodweddu'r rôl newydd i lywodraeth - cefnogi yn hytrach na chyfarwyddo, ac ymddiried mewn gweithwyr i wneud eu gwaith;

- Mae ACPO yn argymhell cyflwyno, o 1 Ebrill eleni, system llawer symlach i heddluoedd gofnodi digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hyn yn arwain at amnewid 14 categori o ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda thri - 'amgylcheddol', 'niwsans' a 'phersonol'. Bydd hyn yn helpu unigolion sy'n delio â galwadau i nodi'r ymateb priodol, yn seiliedig ar y risg o niwed i'r diodefydd, yn hytrach na natur y digwyddiad ei hun;
- Rydym wedi ymroi i chwilio am fodd cost effeithiol o gyflwyno'r rhif '101' fel rhif cenedlaethol ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai brys a fydd yn rhoi un llwybr i'r cyhoedd adrodd ar ddigwyddiadau nad ydynt yn rhai bryd i'r heddlu. Rydym am ddatblygu hyn mewn modd fydd yn galluogi partneriaid lleol i ymuno â'r heddlu yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl gallu cyhoeddi rhagor o wybodaeth ar hyn maes o law; a
- Yn rhan o'n hymroddiad i dryloywder pellach, rydym y bwriadu cyhoeddi data heddlu ar ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, ynghyd ag ystadegau troseddau swyddogol.

GALLUOGI CYMUNEDAU I GYMRYD RHAN

Gan mai problem leol yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y bôn, bydd y datrasiadau hirdymor yn dod yn rhannol gan unigolion, rhieni a chymunedau wedi eu grymuso sy'n barod i sefyll a'i herio. Nid yw'n rhywbeth y gallwn nac y dylwn ddisgwyl i'r cyhoedd wneud eu hunain. Ond mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae, ac yn rhy aml roedd yr hen ymagwedd o'r brig i lawr yn esgeuluso neu'n ymylu'r rôl honno. Felly

rydym yn ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan, ac i wneud gwahaniaeth:

- bydd cyflwyno mapiau troseddau ar lefel stryd o ddiwedd Ionawr yn galluogi'r cyhoedd i weld manau poeth lleol ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i ddal eu heddlu lleol yn uniongyrchol atebol mewn cyfarfodydd bîr rheolaidd. Bydd y mapiau yn dangos achosion a adroddwyd i'r heddlu yn gyntaf, ond bydd cam nesaf y gwaith yn archwilio ychwanegu data gan bartneriaid lleol eraill, megis cynghorau a landlordiaid cymdeithasol.
- Mae Helen Newlove hefyd wedi dechrau ar ei gwaith fel hyrwyddwr y llywodraeth dros gymunedau mwy diogel a gweithredol. Mae'n ymweld â sefydliadau yn cynnwys canolfannau cymuned, cymdeithasau trigolion, grwpiau ieuencid, awdurdodau lleol, heddluoedd a chymdeithasau tai i wrando ar eu barn ac i drafod y rôl sydd ganddynt mewn adeiladu cymunedau cryfach. Mae hefyd yn gweithio gyda chymdogaethau sy'n dilyn ymagwedd ymgyrchu cymunedol i daclo problemau lleol a gweld iddynt eu hunain beth sy'n gweithio a beth sy'n heriol. Bydd yn cyflwyno cyfres o argymhellion yn hwyrach eleni, yn seiliedig ar ei phrofiad.
- Mae patrolau stryd gwirfoddol wedi cychwyn mewn nifer o ardaloedd ledled y wlad, ble mae cymunedau, gan weithio gyda'r heddlu, yn patrolio eu strydoedd lleol i ddarparu presenoldeb gweladwy, rhwystro anrhefn lefel isel, a gweithredu fel pâr ychwanegol o lygaid a chlustiau a helpu gwneud i bobl deimlo'n ddiogel. Rydym yn cefnogi hyn ac yn gweithio gydag ACPO i gefnogi heddluoedd sydd eisiau mabwysiadu patrolau stryd yn ardal eu heddlu.
- Mae'r Llywodraeth hefyd yn cefnogi'r Cynllun Achrediad Diogelwch Cymunedol sy'n cydnabod rôl y rhai sydd eisoes yn cymryd rhan mewn diogelwch cymunedol

– megis wardeniaid cymdogaeth, ceidwaid parciau a swyddogion diogelwch – gan eu darparu â hyfforddiant ac, os yn briodol, grymoedd cyfyngedig wedi canolbwyntio ar daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Cynllun yn offeryn pwysig arall yn y frwydr yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ei fod yn gwella gweithio mewn partneriaeth rhwng yr heddlu a'r gweithwyr sydd wedi eu hachredu trwy rannu gwybodaeth a chyfarwyddiadau, a chydweithio pellach, yn cynnwys gweithrediadau ar y cyd. Mae unigolion achrededig yn helpu'r heddlu trwy fod yn bâr ychwanegol o lygaid a chlustiau yn eu cymunedau a thrwy daclo mân achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a fydda fel arall yn mynd ag amser yr heddlu.

TACLO YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL YN Y CYFAMSER

Er bod yr ymgynghoriad hwn wedi canolbwyntio ar ein syniadau i wella'r pecyn cymorth, rydym yn cydnabod y bydd gweithredu'r cynigion hyn yn cymryd amser. Rydym hefyd yn cydnabod bod nifer o ymarferwyr ledled y wlad yn gwneud y gorau o'r system bresennol, yn gweithio'n galed i ddiogelu dioddefwyr a chymunedau rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r neges i weithwyr proffesiynol a'r llysoedd yn glir - mae'r holl ddeddfwriaeth bresennol yn weithredol am y tro, a ble mae'n cynnig y dull mwyaf effeithiol o ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, fe ddylai barhau i gael ei ddefnyddio hyd nes y ceir hysbysiad pellach.

Ar yr un pryd, wrth i ni gael gwared ar yr hen dargedau canolog a mentrau o'r brig i lawr, rydym yn awyddus i ganfod a chefnogi dulliau newydd i ymarferwyr siarad â'i gilydd a rhannu eu profiadau.

6. YNGLŶN Â'R YMGYNGHORIAD HWN

Testun yr ymgynghoriad	Ymatebion mwy effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Cwmpas yr ymgynghoriad	I geisio barn partneriaid allweddol (e.e. yr heddlu, awdurdodau lleol, darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig) a'r cyhoedd ar gynigion i ddiwygio'r fframwaith polisi ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Cwmpas daearyddol	Lloegr a, ble fo'n berthnasol, Cymru
Asesiad effaith	Rydym yn defnyddio'r asesiad i gasglu tystiolaeth bellach gan ymarferwyr a'r cyhoedd i hysbysu'r dadansoddiad cost/mantais yn ein hasesiad effaith cam terfynol. Os oes gennych dystiolaeth o gostau neu fanteision y pecyn cymorth presennol y gallwn ddefnyddio i hysbysu gwaith ar yr asesiad effaith, anfonwch hwn i ni trwy e-bost neu'r post.

I	Mae'r ymgynghoriad yn agored i'r cyhoedd.
Hyd	Tan 3 Mai 2011
Ymholiadau	Y Swyddfa Gartref Antisocial Behaviour Unit 4th Floor, Fry Building 2 Marsham Street Llundain SW1P 4DF Ebost: ASB-consultation@homeoffice.gsi.gov.uk
Sut i ymateb	Gallwch ymateb ar-lein yn: www.homeoffice.gov.uk/ASB-consultation
Ffyrdd eraill o gymryd rhan	Fe gynhelir ymarfer ymgynghori ar-lein. Cysylltwch â'r Swyddfa Gartref (fel uchod) os ydych angen gwybodaeth ar unrhyw ffurf arall, megis Braille, print bras neu sain.
Wedi'r ymgynghoriad	Fe gyhoeddir crynodeb o ymatebion cyn neu ynghyd ag unrhyw weithredu yn y dyfodol.
Cyrraedd y cam hwn	Mae swyddogion ledled llywodraeth, dan arweiniad y Swyddfa Gartref, wedi adolygu'r offer a'r grymoedd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
Ymgysylltu blaenorol	Fe ymgynghorwyd â phartneriaid allweddol a rhai ymarferwyr arbenigol yn anffurfiol wrth ddatblygu'r cynigion hyn.

YMATEBION: CYFRINACHEDD AC YMWARTHODIAD

Gellir trosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom at gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref, y llywodraeth neu asiantaethau cysylltiedig.

Gall unrhyw wybodaeth a ddarparir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn amodol i'w gyhoeddi neu ddatgelu yn unol â chfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 [FOIA], y Ddeddf Diogelu Data 1998 [DPA] a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i wybodaeth arall a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna Gôd Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill.

O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn cymryd i ystyriaeth eich esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid.

MEINI PRAWF YMGYNGHORI

Ble fo'n bosibl mae'r Ymgynghoriad yn dilyn y Cod Ymarfer ar Ymgynghori – ac fe gyflwynir y meini prawf ar gyfer hyn isod:

Maen Prawf 1 – Pryd i ymgynghori – Dylid ymgynghori'n ffurfiol yn ystod cam pan fydd cwmpas i ddylanwadu ar y deiliant polisi.

Maen Prawf 2 – Hyd ymarferion ymgynghori – Dylai ymgynghoriadau barhau am o leiaf 12

wythnos fel arfer, gan roi ystyriaeth i gyfnodau hirach o amser ble fo'n ddichonadwy a synhwyrol.

Maen Prawf 3 – Eglurder cwmpas ac effaith – Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir am y broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei argymhell, y cwmpas i ddylanwadu a chostau a buddiannau disgwylidig y cynigion.

Maen Prawf 4 – Hygyrchedd ymarferion ymgynghori – Dylid cynllunio ymarferion ymgynghori i fod yn hygyrch i, ac wedi eu targedu'n amlwg at y bobl y bwriedir eu cyrraedd.

Maen Prawf 5 – Baich ymgynghori – Mae cadw baich ymgynghori i isafswm yn hanfodol i sicrhau ymgynghoriadau effeithiol a chefnogaeth ymgynghoreion i'r broses.

Maen Prawf 6 – Lefel ymateb i ymarferion ymgynghori – Dylid dadansoddi ymatebion ymgynghori yn ofalus a darparu adborth eglur i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.

Maen Prawf 7 – gallu i ymgynghori – Dylai swyddogion sy'n rheoli ymgynghoriadau geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgant o'r profiad.

Mae'r Cod Ymarfer llawn ar Ymgynghori ar gael yn: <http://www.bis.gov.uk/policies/better-regulation/consultation-guidance>

CYDLYNYDD YR YMGYNGHORIAD

Os oes gennych gŵyn neu sylw i'w roi ynglŷn ag ymagwedd y Swyddfa Gartref i ymgynghori, dylech gysylltu â Chydlynedd Ymgynghori'r Swyddfa Gartref, Adam McArdle. PEIDIWCH ag anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn at Adam McArdle. Mae'r Cydlynedd yn gweithio i hyrwyddo safonau arfer gorau a osodwyd gan y Cod Ymarfer, yn cynghori timau polisi ar sut i gyflawni ymgynghoriadau ac yn ymchwilio cwynion a wnaed yn erbyn y Swyddfa Gartref. Nid yw'n prosesu'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Gellir anfon e-bost at y cydlynnydd yn: Adam.
McArdle2@homeoffice.gsi.gov.uk neu gallwch
ysgrifennu ato:

Adam McArdle, Consultation Co-ordinator

Y Swyddfa Gartref
Performance and Delivery Unit
Better Regulation Team
3rd Floor Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

ISBN: 978-1-84987-417-5

HO_01747_G